# ECO'R WYDDFA


Rhif 224 MEHEFIN 1996 Pris 30c


**CYFARFOD BLYNYDDOL**
***ECO'R WYDDFA***
**Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol**
**nos Iau, 20 Mehefin 1996**
**am 7.30 o'r gloch**
**yn Ysgol Brynrefail, Llanrug**


***Taer erfynir am eich presenoldeb.***
***Wedi'r cyfan eich papur chi ydi o!***

# Un tîm . . . dwy gamp . . . dwy darian

Mae hi wedi bod yn dymor hynod o lwyddiannus i fechgyn dan 11 oed Llanberis, a hynny mewn dau faes gwahanol. I bob pwrpas yr un aelodau timau pêl-droed a rygbi Ysgol Dolbadarn a thîm pêl-droed y pentref. Cafwyd llwyddiant ar y cae rygbi drwy ddod yn bencampwyr Sir Eryri yr Urdd a chael taith i Lanelli i'r Chwaraeon Cenedlaethol. Dilynwyd hynny trwy ennill Cystadleuaeth Ysgolion Cylch Caernarfon a chipio Tarian Clive James. Dyma'r tro cyntaf i'r darian hon gael ei chyflwyno ac yr oedd yr hogiau wrth eu bodd yn derbyn y darian o law Clive. Cyrhaeddodd yr hogiau rownd derfynol Cwpan Cynghrair Bêl-droed Gwyrfai ar Fai 18, ac er mai colli wnaethant roeddent yn falch iawn o'r tlysau a gyflwynwyd iddynt. Aed un cam yn well y nos Fercher ganlynol gan ennill Tlws yr Eco yn Llanrug. Llongyfarchiadau mawr i'r hogiau am dymor i'w gofio.



## Y Murlun



Mae'r murlun y bu rhai o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn gweithio arno yn yr Amgueddfa Lechi wedi ei orffen erbyn hyn. Mae'r murlyn yn gorchuddio dwy ochr i wal newydd a godwyd i greu cyntedd mewnol yr Ystafell Addysg a agorwyd yn ddiweddar yn yr hen Gwt Oel. Cofiwch bicio i weld y murlun pan fyddwch yng nghyffiniau'r Gilfach Ddu nesaf. Mae'r disgyblion i'w llongyfarch am greu murlun trawiadol iawn.

## Codi Arian i Dunblane

Mae sylw'r cyfryngau wedi ei hoelio ar Dunblaen unwaith yn rhagor wrth i'r ymchwiliad i'r gyflafan erchyll a ddigwyddodd yn yr ysgol gynradd yno agor yr wythnos hon. Cydymdeimlwn o'r newydd â'r teuluoedd ac â'r gymdogaeth gyfan yno. Un arwydd o'r cydymdeimlad hwnnw yw'r cyfraniadau a wnaed i Gronfa Apêl Dunblane. Dydd Sadwrn, Mai 18, ymunodd aelodau Gorsaf Dân Llanberis â'u cydweithwyr trwy ogledd Cymru i olchi ceir er mwyn codi arian at Gronfa Dunblane. Gwerthfawrogir pob cefnogaeth a roddwyd i'r diwrnod.



*Llion Roberts a Steven Roberts yn brysur yn golchi . . .*




## Bro Maelor

Llongyfarchiadau i'r rhai fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd ym Mro Maelor yr wythnos hon. Cyflwynwyd un o dlysau cyntaf yr Ŵyl i Adran Waunfawr. Enillodd Jenny Lyn Morris, Deiniolen, y gystadleuaeth offeryn chwyth i rai rhwng 12 a 15 oed. Bydd y cystadlu yn para tan ddiwedd yr wythnos. Cofiwch anfon manylion ar gyfer rhifyn nesaf o'r *Eco* am bob llwyddiant a ddaw i blant y fro.

# ECO'R WYDDFA

Rhif 224
MEHEFIN 1996

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*


## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDDOL**
**IWAN ROBERTS**
**LLEIFIOR, LLANRUG**
**Ffôn: (01286) 675649**
**JOHN PRITCHARD**
**CILFYNYDD, LLANBERIS**
**Ffôn: (01286) 872390**

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115
**DYDDIADUR Y MIS**
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)
**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)
**DATBLYGU LLUNIAU**
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (01248) 353337 neu 871925
**TREFNYDD HYSBYSEBION**
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)
**TREFNYDD BWNDELU**
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug (673696)
**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)
**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)
**TREFNYDD PLYGU**
Shioned Griffith (650570)

**GOHEBWYR PENTREFI**
**Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd.**

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
**DEINIOLEN:** W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
**DINORWIG:** Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Dinorwig (870576)
**LLANBERIS:** Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
**NANT PERIS:** Elwyn Searell Jones, Dwyfor (870440)
**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
**TAN-Y-COED:** Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

**Y RHIFYN NESAF**
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**NOS IAU, MEHEFIN 27**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS LUN, MEHEFIN 17**
Os gwelwch yn dda

# DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

**Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570**

| RHIFYN | DYDDIAD PLYGU | BLE? | CYSYLLTU Â | RHIF FFÔN |
|---|---|---|---|---|
| GORFFENNAF | MEHEFIN 27 | BETHEL | Mr Geraint Ellis | (01248) 670726 |
| AWST | – | – | – | – |
| MEDI | MEDI 5 | DINORWIG | – | – |
| HYDREF | MEDI 26 | PENISARWAUN | Mrs Ann Evans | 872407 |
| TACHWEDD | HYDREF 31 | LLANBERIS | Mr Gwilym Evans | 872034 |
| RHAGFYR | TACHWEDD 28 | CAEATHRO | Mr Clive James | 677438 |

**Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth**

**MAE CAMERÂU YR *ECO* AR GAEL GAN Y CANLYNOL:**
**BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115**
**WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (650556)**
**DEINIOLEN:**
**LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)**

# *Llythyrau*

## Gwahoddiad
## Clwb Rygbi Bangor

*Annwyl gyfeillion,*

*Mae'r tymor rygbi eisoes wedi dod i ben ac fe fu'n dymor llwyddiannus iawn i'r ieuenctid. Pwysleisiodd un o'm cymdogion wrthyf nad oedd yna yr un plentyn nac oedolyn o fro'r Eco yn aelod nac yn chwaraewyr o'r Clwb hwn. Agoriad llygad, yntê!*

*Felly mae Clwb Rygbi Bangor yn estyn gwahoddiad i bob mam a thad, ac yn arbennig i bob plentyn, i ymuno â'r Clwb y flwyddyn nesaf.*

*Rwyf wedi gweld a'm llygad fy hun rhai o blant yr ardal yn chwarae gyda phêl rygbi yn yr ardd neu ar y stryd, ac felly yn dangos diddordeb yn y gêm.*

*Bydd y Clwb yn ailagor ac yn ailgynnal profion a nosweithiau ymarfer ar ddechrau mis Mehefin. Os oes gennych ddiddordeb i ymuno â ni, neu angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:*

*ALAN WYN*
*3 Bro Deiniol, Deiniolen*
*(01286) 872394 gyda'r nos*
*(01286) 871999 yn ystod y dydd*

*Bydd croeso cynnes iawn i bawb.*

## Gwasanaethau Gwirfoddol Gwynedd

*Annwyl Olygydd,*

*Offer Cyfieithu is-goch*

*Dymunwn hysbysu eich darllenwyr o wasanaeth newydd y gallwn ein gynnig i gymdeithasau gwirfoddol a chymunedol.*

*Mae'r Bwrdd Iaith wedi cyflwyno inni offer cyfieithu is-goch ar fenthyg a byddwn yn barod i logi'r offer i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Os hoffech fanteisio ar y gwasanaeth, neu dderbyn rhagor o wybodaeth, dylid cysyllu â'r swyddfa yng Nghaernarfon ar (01286) 672626.*

*Yr eiddoch yn gywir,*

*ARWEL WYN OWEN*
*Swyddog Defnyddwyr*

## Cynllun Cynnal Dioddefwyr
### Môn a Gwynedd

*I'r rhai ohonoch sydd wedi bod yn destun trosedd ar unrhyw adeg yr ydych yn ymwybodol o effeithiau gweithred o'r fath arnoch yn bersonol ac ar aelodau o'ch teulu. Gall effeithiau trosedd amharu ar lawer agwedd o'ch bywyd, yn ymarferol yn ogystal ag emosiynol.*

*Sefydlwyd Cynllun Cynnal Dioddefwyr Môn/Gwynedd i ymateb i'r galw cynyddol am gymorth yn dilyn digwyddiad troseddol a bellach mae rhwydwaith o wirfoddolwyr hyfforddedig ledled Gwynedd a Môn yn ceisio ymateb i'r angen hwn.*

*Serch hynny, mae gwir angen am ragor o wirfoddolwyr i alluogi'r cynllun i gynnig gwasanaeth cyflawn ym mhob cwr o'r ardal eang hon. Bbyddai gallu cynyddu'r nifer o wirfoddolwyr sy'n Gymry Cymraeg eu hiaith yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth llawn i ddiddefwyr sy'n dymuno trafod eu hachos yn eu mamiaith.*

*Caiff gwirfoddolwyr gwrs hyfforddiant trylwyr ac ad-daliad o unrhyw gostau teithio tra'n ymwneud a'u gwaith. Os y credwch fod gennych yr ymrodiad, clust i wrando ac ychydig o oriau'r wythnos i'n cynorthwyo, dowch i gystylltiad am sgwrs anffurfiol.*

*Cysylltwch â:*
*G. JONES*
*Cyd-gysylltydd Atal Troseddu*
*Cyngor Gwynedd*
*(01248) 679647*

## Cronfa M. L. Powell

*Y mae Cronfa M. L. Powell yn rhoi grantiau bach i fudiadau a grwpiau gwirfoddol sy'n gweithio er mwyn hyrwyddo diwylliant, celfyddydau a hanes Cymru yn ardal yr hen Sir Gaernarfon.*

*Gellir gwneud cais trwy lythyr gan amlinellu gweithgareddau eich grŵp neu gymdeithas, ynghyd â manylion y posiect sydd gennych o dan sylw.*

*Y dyddiad nesaf i dderbyn ceisiadau yw 18 Medi 1996.*

*Anfonwch eich ceisiadau, os gwelwch yn dda, i:*

*SARAN THOMAS*
*Cronfa M. L. Powell*
*Gwasanaethau Gwirfoddol Gwynedd*
*Bryn Morfa, Lôn Parc,*
*Caernarfon, Gwynedd LL55 2YH*

**PAPUR BRO**
**Eich manion chwi a minnau yw deunydd**
**Dinod ei golofnau.**
**Eto'i nerth yw ein tynhau'n**
**Ein dibwys ddiddordebau.**

NORMAN WILLIAMS, Brynrefail

## Bwrdd yr Iaith Gymraeg
### Cynlluniau Iaith

*Annwyl Olygydd,*

*Gobeithio y gwnewch chi ganiatáu gofod i mi dynnu sylw eich darllenwyr at broses yn Neddf yr Iaith Gymraeg sy'n berthnasol – yn wir yn holl bwysig – iddyn nhw.*

*Dros y misoedd nesaf mi fydd sawl corff cyhoeddus yn ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â drafft o'i gynllun iaith. Bydd y cynlluniau hyn yn disgrifio pa wasanaethau fydd ar gael yn Gymraeg. Mi fydd rhybuddion yn ymddangos yn y papurau (gan gynnwys eich papur chi) gan wahodd y cyhoedd i ofyn am gopïau, ac i fynegi barn, cyn bod y cynlluniau yn cael eu hanfon at y Bwrdd i'w hystyried. Hefo pob cynllun, mi fydd adroddiad gan y cyrff i'r Bwrdd sy'n dadansoddi sylwadau'r cyhoedd, ac yn dweud sut mae'r cynllun yn adlewyrchu hynny.*

*Dyma'r cyfle, felly, yn unol â'r Ddeddf, i siaradwyr Cymraeg roi eu barn ar yr hyn sy'n cael ei gynnig. Bydd eu sylwadau yn cyfrif.*

*Yr Arglwydd ELIS-THOMAS*
*Cadeirydd*


**ERIC JONES**
**PENISARWAUN**
PEINTIWR
AC ADDURNWR



Joban Dda
am Bris
Rhesymol

**Ffôn: 872421**

## Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen



*Selwyn Griffith, Clerc y Cyngor, yn llongyfarch R. Len Jones ar ei ethol yn gadeirydd y Cyngor.*

Etholwyd R. Len Jones, Deiniolen, yn gadeirydd Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen, a Miss Einir Gwyn, Brynrefail yn is-gadeirydd. Ychydig fisoedd yn ôl fe wariodd y Cyngor dros dair mil o bunnoedd ar drwsio cysgodfannau-aros-bysiau yn y plwyf. Eisoes mae'r ddau gysgodfan ym Methel wedi cael eu fandaleiddio. Fe gostiodd atgyweirio y ddau gysgodfa ym Methel dros £500 i'r Cyngor. Gobeithir trefnu cyfarfod yn y dyfodol agos i drafod sut i symud ymlaen i wella cyflwr cyffredinol pentref Deiniolen. Mae'r Cyngor Cymdeithas wedi bod yn pwyso ar y gwahanol awdurdodau i wella'r amgylchedd ers blynyddoedd. Cafwyd nifer o gwynion ynglŷn â sbwriel yn cael ei adael mewn gwahanol fannau yn y plwyf. Derbyniodd y Cyngor nifer o lythyrau gan Gymdeithasau ac unigolion yn cefnogi eu cais i wrthwynebu bwriad y Cyngor Sir i wyro Llwybr Cae Goronwy, Fachwen. Bydd ymchwiliad cyhoeddus ynglŷn â hyn yn y dyfodol agos pan fydd y Swyddfa Gymreig yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r gwrthwynebiad.

Bydd cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn Ysgol Penisarwaun ar yr 2il o Orffennaf.

## Gŵyl Gorawl Arfon 1996

Eleni, ym mlwyddyn mawr y dathlu yn Esgobaeth Bangor, ymunodd Deoniaeth Arfon (rhanbarth Eryri ac Arfon) efo'i gilydd mewn moliant yn y Gadeirlan, bnawn Sul, 5 Mai. Llanwyd y Gadeirlan a chafwyd Gŵyl i'w chofio. Arweiniwyd gan Mr Maldwyn Parry, Pen-y-groes, yr organydd oedd Mr James Griffiths, a'r llywyddion oedd Deon Gwlad Arfon, y Parchg Idris Thomas, Trefor, a'r Parchg Tegid Roberts, Penisarwaun. Yn bresennol hefyd roedd y grŵp Cristnogol 'Gobaith', sef aelodau ifanc o gapel Salem, Caernarfon. Canwyd saith o emynau — pump i gyfeiliant yr organ a dwy i gyfeiliant y grŵp 'Gobaith'; a chafwyd datganiadau ychwanegol gan 'Gobaith'.

Cafwyd cyfraniadau yn ystod yr Ŵyl gan y gwahanol blwyfi a chafwyd cyflwyniadau graenus, amrywiol, lliwgar a bywiog, a diolchir i blwyfi Bangor, Llanael-haearn, Llanbeblig, Llanrug, Llandinorwig a Phenisarwaun, Llanwnda, Llanfairisgaer, a Llanllyfni am eu gwaith.

Roedd llwyfan bychan yn y Gadeirlan ynghyd ag offer sain yn gymorth i bawb weld a chlywed y plant a'r ifanc. Tua diwedd yr Ŵyl cyflwynwyd tystysgrif hardd i'r plant a'r ifanc gyda'r geiriau *'Cyflwynwyd y dystysgrif hon ar achlysur Gŵyl Gorawl Arfon ym mlwyddyn y DATHLU (546-1996) a gynhaliwyd yn y Gadeirlan ym Mangor ar 5 Mai 1996'.* Diolchir i Mrs Eileen Hughes o blwyf Llandinorwig am drefnu'r gwaith o baratoi y dystysgrif. Yn ogystal dosbarthwyd i'r plant a'r ifanc hefyd fathodyn yr Ŵyl yng Nghlynllifon. Diolchwyd i bawb ar ddiwedd yr Ŵyl am eu cefnogaeth ac i bawb a fu yn hyfforddi'r plant a diolchwyd i'r Parchg Robert Townsend am ei gydweithrediad yn y Gadeirlan. Traddodwyd y Fendith gan yr Archddiacon, Elwyn Roberts. Y flwyddyn nesaf (1977) bydd dau ranbarth y Ddeoniaeth yn cynnal eu gwyliau corawl ar wahân ond hyfryd o beth oedd ymuno fel hyn yn ystod y flwyddyn arbennig hon, a da yw datgan fod y gwyliau yn Arfon yn fyw, yn iach, ac yn fyrlymus. Parhaed felly.

## Cystadleuaeth Cyfeiriannu

I'r rhai ohonoch sydd â diddordeb mewn rhedeg ras a darllen map yr un pryd, mae cyfres o gystadlaethau cyfeiriannu wedi eu trefnu ar nosweithiau Iau dros y ddeufis nesaf. Ar 6 Mehefin y man cyfarfod fydd Coed Fictoria, Llanberis; yna wythnos yn ddiweddarach (13 Mehefin) Coed Dinorwig a'r Gilfach Ddu. Mae gweddill y gyfres yn cyfarfod yng Nghapel Curig, Betws-y-coed a Glynllifon. Bydd cofrestru yn digwydd rhwng 4.30 a 6.30 o'r gloch, a'r rasus rhwng 5 a 7 o'r gloch. Mae cyrsiau hawdd iawn, hawdd, technegol, ac anodd, ym mhob cyfarfod. Am fwy o wybodaeth ffoniwch Helena Burrows ar (01407) 710528.

## Lluniau ar goll



Yn ystod wythnosau'r haf 1988, trefnodd Cymdeithas Hanes Bro Eco'r Wyddfa arddangosfa o rhwng pump a chwe chant o hen luniau o'r ardal yn Amgueddfa'r Gogledd yn Llanberis. Er fod ymdrechion glew wedi eu gwneud ar y pryd i sicrhau fod pawb a gyfrannodd yn derbyn eu lluniau yn ôl, yn anffodus 'diflanodd' dau lun. Gwelir uchod gopi o un o'r lluniau — llun ydyw o Mr a Mrs Robert Lewis, Yr Ynys, Llanddeiniolen, cyn troad y ganrif. Peidiodd â bod yn dŷ fferm tua 1930. Prynwyd y llun ar stondin yn Southampton yn 1914 gan Hugh Owen Hughes, Garth, Y Felin-heli, pan yn filwr yn y fyddin. Cyflwynodd Mr Hughes y llun i gyfaill i mi yn y gobaith y byddai'n ddiogel yn ei feddiant gan ei fod yn lun prin. Yn ogystal â'r llun uchod cyflwynodd fy nghyfaill lun arall i'r arddangosfa — llun o Robert Thomas, Cefn Cyngir, Bethel. Dyma'r unig lun sydd ar gael o'r hen Cefn Cynrig ac o Robert Thomas.

Gan mai fi oedd yn bennaf gyfrifol am yr arddangosfa teimlaf hefyd yn gyfrifol am 'ddiflaniad' y ddau lun. Gan fy mod wedi chwilio a chwilota am flynyddoedd yn y tŷ amdanynt mae'n amlwg erbyn hyn fod rheswm arall dros eu diflaniad. Oherwydd treigl amser mae'r cof yn pallu. Mae'n bosib, felly, fy mod wedi rhoi benthyg y lluniau i rywun ond heb eu cael yn ôl. Os felly y bu, apeliaf yn daer am y lluniau yn ôl mor fuan ag sydd modd.

Gallwch anfon y lluniau i mi — **Arwel Jones, Cae Eboni, Penisarwaun.** Yn wir **ni** fydd angen enw nac esboniad — dim ond eu hanfon ac fe fyddaf yn hynod ddiolchgar.

## Ras Cefn Du

Cynhaliwyd y ras eleni fel rhan o 'Gyfres Nos Fawrth' a drefnir gan aelodau Clwb Rhedwyr Eryri. Mae chwech ras yn rhan o'r gyfres, gyda'r enillydd yn cael ei ddewis ar ddiwedd y chweched ras. Mae'n golygu fod yn rhaid i'r rhedwyr anelu at amseroedd da ym mhob ras yn hytrach na safleoedd.

Roedd ras gyntaf y gyfres yn Llanberis ddiwedd Ebrill, a daeth dros trigain o redwyr i herio llethrau Moel Eilio. Yn ail yn y gyfres roedd Ras Cefn Du, yn cychwyn o Ysgol Gynradd Llanrug ac yn anelu at yr hen gwt brics ger y copa, cyn disgyn trwy'r grug a chroesi Parc Minffordd yn ôl i fuarth yr ysgol. Unwaith eto, mentrodd trigain a dau o redwyr yn y brif ras, ac unarddeg o ieuenctid dan 16 oed yn rasio i Garreg Arthur ac yn ôl.

Enillydd y brif ras oedd Alun Vaughan o Lanberis, a hynny bron i bedwar munud ar y blaen i'r ail. Cyrhaeddodd y copa ac yn ôl i Lanrug mewn 35 munud a 40 eiliad. Dave Whittey o Ddolgellau oedd yn ail yn adran y dynion hŷn, gyda Tim Lloyd, un arall o hogia'r fro yn drydydd. Yn yr adran i ddynion dros 40 oed, Mike Blake o Gaernarfon oedd yn fuddugol, gyda Graham Rogers o Fae Colwyn yn ail, a Peter Evison o Gaethatro yn drydydd. Don Williams o Fynydd Llandegai ddaeth yn ail yn y brif ras, ac yn gyntaf i ddynion dros 50 oed. Yn ail yn y categori hŷn roedd Emyr Davies o Rostryfan, a Dewi Tomos eto o Rostryfan, yn drydydd. Yn adran y merched, Jane Lloyd (gwraig Tim) oedd yn gyntaf am yr ail flwyddyn yn olynol, gyda Bridget Ripley, Dinorwig, yn gyntaf yn yr adran i ferched hŷn. Elin Harding, Llanberis oedd yr unig ferch leol i gystadlu yn yr adran iau, ac aeth gwobrau'r bechgyn i gyd allan o fro'r *Eco.*

Noddwyd y gystadleuaeth eleni eto gan gwmni Celtest, Bangor, a dymuna'r trefnydd ddiolch i bawb am bob cymorth i wneud y ras yn un lwyddiannus. Roedd yr elw yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Canolfan Llanrug.


**Cefnogwch ein Hysbysebwyr**

PLAID CYMRU LLANBERIS

**MONIARS**

nos Wener, Mehefin 7fed
yng Ngwesty Dolbadarn
Llanberis

Tocynnau £4

Tocynnau ar werth gan:
GWILYM EVANS
(01286) 872034

# O SIAMBAR SELWYN

**Mi fûm i ar fy holides ym mis Ebrill. Mi fyddai'n mynd i 'wyneb haul llygad goleuni' rhyw ddwywaith yn y flwyddyn, ac i'r un lle y byddai'n mynd bob tro yn gyson ers tua deng mlynedd bellach. *Teithio* fydda i am y gweddill o'r flwyddyn, ac mae *teithio* yn wahanol i *fynd ar wyliau.* 'Holides y Tair D' fydda i yn 'i alw fo, sef Darllen, Diogi, a Diota!**

Cyn ichi ddarllen gair ymhellach gwell imi egluro'r 'Diota' 'na, rhag ofn i rai o ddarllenwyr parchus a selog y Siambar feddwl 'mod i wedi ymuno â'r *lager louts*! Na, cerdded rhyw bum milltir yn ôl a blaen ar hyd y traeth i'r harbwr y bydda i, a stopio i gael gwydraid o win coch Rioja — a gwydraid arall ar y ffordd yn ôl. Cyngor da roddodd Paul i Timotheus — 'ŷf win er mwyn dy gylla'.

Roedd hi'n gythreulig o boeth yno ar brydiau, a fyddwn i byth bythoedd yn meddwl mynd yno yn yr haf. Na, mae'n well gen i fynd yno i ddiogi ac i ddarllen unwaith neu ddwy o bobtu'r gaeaf.

Mynd a llyfr neu ddau o'm llyfrgell fy hun fydda i — llyfrau dwi heb edrych drwyddyn nhw ers blynyddoedd, ac yn ddiweddar 'ma rydwi wedi dechra mynd a hen gyfrolau o *Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* yr Eisteddfod Genedlaethol yn gwmni imi.

Cyfrol Eisteddfod Genedlaethol Aberpennar, 1946 (union hanner canmlynedd yn ôl) gafodd y fraint o fynd drwy'r *customs* y tro hwn.

Dwi'n cofio bod yn y 'Steddfod honno pan gafodd 'na ryw Saesnes ifanc o Lundain ei derbyn i'r Orsedd o dan yr enw barddol 'Elisabeth o Windsor'.

Anrhydeddwyd dau brifardd go amlwg, sef y Prifardd a'r cyn-Archdderwydd Geraint Bowen am ei awdl foliant i'r 'Amaethwr'. Ydach chi'n cofio'r cwpled:

*Y gŵr a arddo'r gweryd*
*A heuo faes; gwyn ei fyd.*

Mae Geraint a Zonia wedi cartrefu gyda ni ym mro'r *Eco* bellach.

Y Prifardd Rhydwen Williams enillodd y goron am ei bryddest 'Yr Arloeswr'. Mi gafodd Geraint a Rhydwen wobr ariannol o £10 yn ogystal. Heddiw, mi fyddan nhw yn cael ffortiwn o £500, ond er hyn, dim ond chwech sydd wedi cynnig am y gadair ym Mro Dinefwr eleni.

Mae beirniaid y ddwy gystadleuaeth wedi'n gadael ni: Tom Parry, Gwyndaf a Gwenallt ar yr awdl; a T. J. Morgan, J. M. Edwards a William Morris ar y bryddest. (Cyd-ddigwyddiad hapus a diddorol i mi oedd bod ar daith yn yr Alban ddechrau'r mis 'ma a thalu fy ymweliad blynyddol âg Ynys Mull ac Iona a chael cwmni Gwenno, merch y diweddar William Morris ar y daith. Yn naturiol, aethom i sôn am y 'pethe'.

Roedd hi yn Eisteddfod Genedlaethol Castell Nedd yn 1934 pan enillodd ei thad y gadair am ei awdl 'Ogof Arthur', a phan gododd William Morris ar alwad y corn gwlad fe ddwedodd wrtho, "Steddwch wir, dadi!' Gweinidog yng Nghonwy oedd William Morris ar y pryd a phan gyrhaeddon nhw adra o'r 'Steddfod roedd y tŷ yn llifo — roedd y tanc dŵr wedi byrstio. Mae cadair William Morris i'w gweld heddiw yng Nghapel Seilo, Caernarfon, y dref y bu'n weinidog ynddi am flynyddoedd.

* * * *

Mae beirniadaeth Gwenallt ar yr awdl yn Eisteddfod Aberpennar yn hynod ddiddorol. Rwy'n dyfynnu: *'Ceir yn y gystadleuaeth hon awdlau gan "feirdd y werin" a "beirdd y coleg". Dyna'r dosbarthiad cyffredin ar feirdd — dosbarthiad anghywir a ffôl. Nid gŵr gradd a enillodd y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1902 ar "Ymadawiad Arthur" ond gŵr y wasg, ac mae gwŷr y wasg yn perthyn, mae'n debyg, i'r werin. Nid oes eisiau dangos fod "bardd y coleg" fel W. J. Gruffydd, yn un o'r werin. "Bardd y coleg" yw R. Williams Parry, ond ni fu erioed fardd mwy anacademaidd. Nid oes ar ei gerddi ôl cysgod coleg na lliw llyfrgell. Bardd gwlad ydyw.'*

Testun trafodaeth yn sicr. Pwy oedd y bardd di-goleg ola i ennill y gadair neu'r goron? Digon o waith y gwelwn ni rai o dras y diweddar Gwilym R. Jones a Tom Parry-Jones, Ty Pigyn, yn cyflawni'r gamp o ennill y gadair, y goron, a'r fedal ryddiaith, eto a hwythau heb gael diwrnod o goleg erioed. Mae drws y colegau mor hawdd i'w hagor heddiw, diolch am hynny, ac mae cynffon o radd yn beth mor gyffredin.

* * * *


Do, mi ges i bleser mawr yng nghwmni *Cyfansoddiadau* Eisteddfod Genedlaethol Aberpennar tra ar fy holides. Lle bûm i?

Wel, dydio ddim yn bell. Roeddwn i'n cychwyn oddi yno am un o'r gloch y pnawn ac roedwn i adra ym Mhenisarwaun am chwarter i chwech. Mae'n cymryd yr un faith o amser i mi fynd i Gaerdydd hefo car. Ond mae Roquetas de Mar ar arfordir Almeria, Sbaen, yn dipyn gwahanol i ddinas Caerdydd. Tre fechan, dawel ar lan y môr, a mynyddoedd y Siera Nevada a'u copaon gwynion yn y cefndir — a'r gwin coch yn llifo.

Ella' y gwelai chi yno ym mis Tachwedd os byw ac iach. Pleser fyddai cael dymuno iechyd da i chi hefod gwydraid o win coch Rioja.

## Llafur yn Baeddu'r Toriaid

Dyna fu'r hanes ledled Lloegr yn yr etholioadau lleol diweddar, ac yr oedd un o blant Llanrug yn rhan o'u buddugoliaeth. Mae Mr Elwyn Jones (mab y diweddar Thomas Jones, Y Fron, Llanrug) yn byw yn Dunstable ers llawer blwyddyn bellach, ond yn ddarllenwr brwd o'r *Eco*, ac yn cyfrannu'n achlysurol i'r golofn 'Chwilota'. Yn yr etholiadau diweddar fe'i etholwyd yn Gynghorydd Llafur ar Gyngor Tref Dunstable; tref a fu dan reolaeth y Toriaid ers cyn cof, ond sydd bellach wedi dilyn y patrwm gwrth-Doriaidd. Mae Mr Jones yn un o 17 aelodau Llafur sy'n rheoli'r cyngor bellach, a chynrychiolaeth y Toriaid wedi disgyn i 3 aelod.


GWYN JONES
FFENESTRI ERYRI
GARTH ISAF, LLANRUG
(01286) 650764
★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
★ *Porches* ★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD
O BROFIAD YN Y MAES



Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?
YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);
YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)
Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)
CDH
Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055



E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn: (01286) 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



SPAR
Y STORFA
LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: (01286) 672790
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

# 'Un funud fach . . .'

## GAWN NI WELD . . .?

Tair galwad ffôn yr un bore, a thri chais gwahanol.

Athrawes o dde Lloegr yn holi, 'Gawn ni ddod â chriw o blant i weld y capel acw eleni eto tra byddwn yn aros yn Llanberis?'

Ymwelydd o'r Unol Daleithiau yn hel achau'r teulu: 'Oes modd i mi gael gweld hen lyfrau cofnodion eich capel?'

Swyddog o'r Cyngor Sir yn holi am berchnogaeth darn o dir: 'Oes modd cael golwg ar weithredoedd y capel . . . i weld pwy sy' pia'r llecyn yma?'

Ac er pwysiced y ceisiadau hyn i'r rhai a'u cyflwynodd, byddai'n rheitiach gennyf gael ambell gais tebycach i'r un a roddwyd gerbron Philip ryw ddiwrnod: 'Syr, yr ydym eisiau gweld yr Iesu'. O feddwl am y cais hwnnw, dyma gwestiwn neu ddau i ninnau eu hystyried.

Ydym ni wedi gweld yr Iesu? Welsom ni mor brydferth yw hwn ac mor addas yw fel Gwaredwr i ni? Perthynas â'r Iesu yw dechrau'r bywyd Cristnogol wedi'r cwbl.

Ydym ni'n dal i edrych arno bob dydd? Perthynas sydd i'w meithrin yn barhaus yw'r berthynas hon y daeth y Cristion iddi. Mae rhywbeth newydd i'w weld o hyd am ei gariad a'i waith.

Ydym ni'n awyddus i weld eraill yn cael golwg arno? Y peth mwyaf all ddigwydd i bobl yw eu bod yn dod i adnabod yr Iesu. Ydym ni wir yn dyheu am weld pobl eraill yn cael bywyd a llawenydd a gobaith wrth ddod o hyd i'r Iesu?

Ydym ni'n dangos yn eglur i bobl bod yr Iesu yn werth ei weld a'i adnabod? Os nad ydym yn rhoi bri arno, ac yn dangos ein bod yn ei garu a'n bod ar ein hennill o'i adnabod, pa ddisgwyl sydd i neb geisio golwg arno?

Ydi'r ffaith nad oes neb yn gofyn i ni ddangos yr Iesu iddynt yn dweud rhywbeth am ein tystiolaeth iddo? Dim ond gofyn ydw i . . . i mi fy hun fel i chwithau.

JOHN PRITCHARD


**Am Wasanaeth Fframio Lluniau Tystysgrifau Tapestri**

**am brisiau rhesymol**

**ELWYN PRITCHARD**

**Parc Padarn, Llanberis**

Ar agor Llun — Sadwrn 10.00 — 4.30

**Ffôn: (01286) 870922**


# LLANRUG


**Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384**

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263**


**Gwellhad:** Deellir bod Mr a Mrs Griffith Williams, Lôn Las, Crawiau, wedi dychwelyd adref o'r ysbyty. Dymunwn wellhad buan iddynt.

**Profedigaeth:** Cydymdeimlir yn ddwys iawn â theulu Mrs Gwyn Cadwaladr, 7 Gwêl Fynydd, a Mrs Katie Griffith, 20 Hafan Elan, a fu farw yn ystod y mis diwethaf.

Cydymdeimlir hefyd â Mr Myrddin Owen, Lliwedd, Ffordd Glanmoelyn, yn ei brofedigaeth o golli ei fam yn ddiweddar.

**Ymchwil y Galon:** Yn ystod mis Ebrill cyflwynwyd 'Pulse Oxymeter' i dîm achub mynydd Llanberis. Casglwyd yr arian gan gangen Caernarfon a'r Cylch o Ymchwil y Galon. Bydd y casgliad o dŷ i dŷ yn cael ei gynnal rhwng y 1af a'r 12fed o fis Gorffennaf.

**Croeso** adref o'r ysbyty i Mr John Griffith Jones, 12 Hafan Elan, wedi ei driniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

**Plaid Cymru:** Cynhaliwyd Helfa Drysor nos Wener, Mai 17, a chafwyd noson hwyliog gan orffen gyda gwledd yng Ngwesty'r Royal, Caernarfon. Aeth y wobr gyntaf i Goronwy Hughes a Gwyndaf Jones, yr ail i June Jones ac Eryl Roberts, a'r wobr gysur i Evan Parry. Diolch i Cliff a Vera Williams am drefnu noson mor ddifyr. Enillwyr y raffl oedd Meinir Williams ac Elizabeth Roberts. Cyfarfod Blynyddol y gangen fydd y cyfarfod nesaf, ac fe'i cynhelir yn y Sefydliad Coffa, nos Fercher, Mehefin 5.

**Merched y Wawr:** Nos Fawrth, Mai 14, yn Ysgol Gynradd Llanrug, estynnwyd croeso cynnes i bawb gan yr is-lywydd Mair Huws. Anfonwyd ein cofion annwyl at y llywydd, Meirwen Lloyd, wedi'i thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Anfonir cofion annwyl iawn at aelodau ffyddlon o'r gangen sydd ar hyn o bryd yn derbyn triniaethau.

Gwestai y noson oedd Richard Owen, o Goleg Pencraig, Llangefni. Yn ei ffordd ddoniol a difyr dangosodd i ni sut i drefnu basgedi crog, a sut i'w dyfrhau — peidio gorlenwi yw'r gyfrinach meddai. Os gwelwch fasgedi crog gwerth chweil yr haf yma, yna'r tebygrwydd ydi mai aelodau Merched y Wawr yw'r perchenogion. Diolchwyd i Richard Owen am orig ddifyr, ddoniol a buddiol, gan Jean Roberts.

Yn hwylus iawn etholwyd swyddogion newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf — is-lywydd: Bethanne Williams; ysgrifennydd: Mary Roberts; is-ysgrifennyddion: Nan a Meryl; is-drysorydd: Margaret Jones. Diolch i Meryl, Ann a Julie am wneud y baned. Enillydd y raffl oedd Margaret Jones.

Nos Fawrth, Mehefin 11eg, trefnir trip i Eglwys Clynnog Fawr ac yna i'r Bistro yn Nefyn. Enwau i Mary Roberts, Gwyndy, ffôn: 675385, erbyn Mehefin 1af, os gwelwch yn dda. Bydd y bws yn cychwyn o Benisarwaun am 6 p.m.

**Ysgol Gynradd Llanrug:** Ar Fai 10fed bu pedwar tîm tenis byr dan 9 oed yr Ysgol mewn twrnament Banc y Midland yng nghanolfan hamdden Bethesda. Cafwyd cystadlu brwd rhwng y gwahanol ysgolion a chafodd y plant brofiad gwerthfawr.

Bu tîm tenis dan 11 yr Ysgol mewn cystadleuaeth yn erbyn Ysgol yr Hendre. Ar ôl gêmau agos iawn, Llanrug enillodd, ac aethant ymlaen i chwarae yn erbyn Ysgol Cae Top, Bangor. Ar ôl gêm agos iawn, colli fu ein hanes.

Dydd Mawrth, Mai 14, cafodd plant y dosbarth derbyn dywydd ardderchog i ymweld â thraeth Pwllheli a'r bad achub. Cawsant groeso mawr gan Mr Jones ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr iawn.

Ymweliad Addysgol Bl. 5 a 6: Mwynhawyd cyflwyniad dramatig gan Adran Addysg CADW yng Nghastell Conwy ar Fai'r ail. Cafwyd hanes gwrthryfel Madog ap Llywelyn yn erbyn Edward I, gyda'r plant yn chwarae rhan eu hunain yn y ddrama. Yn dilyn y cyflwyniad aed o gwmpas tref Conwy gan sylwi ar nodweddion diddorol o fewn muriau'r dref. Bu'n ymweliad hynod fuddiol fel rhan o'r gwaith ar y thema 'Cestyll'.

Bu myfyrwyr o'r Coleg Normal yn treulio cyfnod gyda blynyddoedd 5 a 6. Diolch i Miss Catherine Williams a Mr Stephen Williams am eu gwaith caled a phob lwc iddynt.

Mae Miss Eira Jones wedi treulio blwyddyn yn yr ysgol fel rhan o'i chwrs NNEB. Diolch yn fawr am ei gwaith caled a phob lwc iddi yn ei blwyddyn olaf.

**Yr Urdd:** Ddydd Gwener, Mai 17, cafodd disgyblion yr Ysgol gyfle i beidio gwisgo eu gwisg ysgol, a thalu 50c o ddirwy am y fraint! Bydd yr £88 a gasglwyd yn mynd tuag at gostau teithio cystadleuwyr i'r Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Maelor. Diolch i bawb a gefnogodd y diwrnod. Diolch yn fawr hefyd i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at y raffl ac am y nawdd a gafwyd gan fusnesau lleol. Bydd rhestr gyflawn ohonynt yn y rhifyn nesa' o'r Eco. Pob lwc i bawb sy'n dawnsio gwerin ac hefyd i'r parti deulais sy'n cystadlu.



**Llwyddiant:** Bu'r wythnosau diwethaf yn rhai arbennig o lwyddiannus i frawd a chwaer o Lanrug. Mae'r ddau ohonynt yn nofwyr dawnus ac mewn gala ym Mangor ar Fai 4ydd bu'r ddau yn cystadlu'n frwd. Enillodd Nia fedal efydd am ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth 'crawl' a daeth yn y chwech cyntaf mewn tair cystadleuaeth arall. Daeth Eifion yn ail yn y gystadleuaeth 'crawl' ac yn bedwerydd mewn dwy arall.

Rhyw bythefnos ynghynt cafodd Eifion lwyddiant arbennig iawn yng nghystadlaethau unigol Cynghrair Arfordir Cymru. Daeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth broga (gan sefydlu record newydd) ac yn gyntaf hefyd yn y gystadleuaeth nofio ar y cefn. Cyn diwedd y dydd roedd wedi dod yn ail yn y gystadleuaeth 'crawl' a'r pili-pala. Perfformiad arbennig iawn Eifion — dalia ati.

**Marwolaeth:** Bu farw Mrs Katie Griffith, 20 Hafan Elan, yn Ysbyty Gwynedd ar Ebrill 22, yn 93 oed. Gweddw annwyl y diweddar Hugh Griffith; mam dyner Bet, Megan a Gwilym a'r diwedar Tom; mam yng nghyfraith Cledwyn, Joan a Grace; nain gariadus ei hwyrion a'i hwyresau, a'i gor-wyrion. Bu'n aelod ffyddlong yng Nghapel Mawr, Llanrug, a chymerodd ran flaenllaw yn y Lleng Brydeinig. Roedd yn wraig boblogaidd a chyfeiria pawb at ei charedigrwydd a'i sirioldeb bob amser. Bu'r angladd yn Mynwent y Plwyf, Llanrug ar 26ain Ebrill.

Diolchir i bawb o'r teulu a ffrindiau am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd; i'r ardalwyr am eu cydymdeimlad a'u cyfraniadau at Ganolfan Hafan Elan. Diolch i'r meddygol teulu, ac i Dilys ac Arthur Jones (warden) am flynyddoedd o ofal ffyddlon. Diolch hefyd i'r Parchg John Pritchard am ei wasanaeth; Mrs Megan Roberts, organyddes; a Mr Myrddyn Pritchard a Mr Gwynfor Jones am eu trefniadau trylwyr.

**Diolchiadau:**

Dymuna Noel a Joyce, 17 Nant y Glyn, Llanrug, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chydweithwyr am y cardiau a'r anrhegion niferus a dderbyniwyd ar achlysur eu pen-blwydd. Llawer o ddiolch i June Denis a Susan am y deisen pen-blwydd arbennig a'r blodau. Dymuna Noel ddiolch hefyd am y dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei ymddeoliad.

Dymuna Mrs Morfina Cadwaladr a theulu y diweddar John Gwyn Cadwaladr, 7 Gwêl Fynydd, Llanrug, ddiolch o galon i'w cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad, taid a brawd annwyl. Diolch yn arbennig i'r meddygon, nyrsus a staff Ysbyty Gwynedd am eu gofal a'u caredigrwydd. Diolch hefyd i'r Parchedigion Harri Parri, Dewi Wyn Williams, Ronald Williams, W. R. Williams a Hedley Gibbard am eu gwasanaeth yn yr angladd. Diolch hefyd am y cyfraniadau hael a dderbyniwyd tuag at Uned Gofal Arbennig (Ward Cybi) Ysbyty Gwynedd. Diolch i Mr Gwyn Jones o gwmni Gwilym Jones a'i Fab am y trefniadau trylwyr.


MAE'R **SAMARIAID** YN GWRANDO YN ABBEY ROAD

**BANGOR (01248) 354646**

# CHWILOTA



## ATGOFION AM Y FACHWEN

**Wedi cyfnod byr ym Mangor yn gweini yng Ngholeg y Santes Fair, symudodd Gwen Closs unwaith yn rhagor, a'r tro hwn yn rhy bell hyd yn oed i weld copa'r Bigil a pholion Marconi o'i chartref newydd. Fel ei chwaer, May, o'i blaen, symudodd i Lerpwl yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Teithiodd yno ar y trên o Gaernarfon, a hynny yng nghwmni ei thad, a oedd yn gweithio yn Canada Dock, Lerpwl. Felly dros gyfnod y Rhyfel Cyntaf roedd y tad a'i ddwy ferch yn gweithio yn Lerpwl a gweddill y teulu gartref yn y Fachwen.**

Bu am gyfnod yn Aintree cyn symud i West Kirby at deulu oedrannus: tad a mam a merch ddibriod. Credai fod rhyw gysylltiad teuluol â Lloyd George. Roedd y tad mewn gwth o oedran, ac yn anghofus iawn. Un gorchwyl oedd gwnïo ei enw ar ei ddillad *'fel y gallai rhai dieithr ei droi am adra'!* Byddai'n crwydro allan drwy'r dydd. Yn wahanol i'w gŵr, doedd y wraig byth bron yn symud o'r tŷ, ond yn gwisgo dillad tebyg iawn i'r hen frenhines Fictoria — yn *'gap du a rhubannau bob tro, a chlogyn ar ei 'sgwyddau.'*

Symud eto fu'r hanes, y tro hwn at deulu o werthwyr glo, lle roedd merch arall o Ddinorwig — Cissie Thomas, Buarth Newydd — yn gogyddes. Roedd chwaer arall yn gweini yn yr un stryd, a byddai'r tair yn mynychu oedfaon Cymraeg bob nos Sul ac yn aelodau o'r côr.

Ond yn ôl i Gymru fu'r cam nesaf, a chael lle yng Nghaernarfon gyda Mr a Mrs Francis yn Uxbridge Square. Fferyllydd oedd gwaith y gŵr, ond ymddeolodd yn ystod y cyfnod y bu Gwen Closs yno. Roedd gardd yng nghefn y tŷ a digon o goed afalau ynddi. Byddai'r rhain yn cael eu casglu a'u cadw ar wellt mewn ystafell wag uwchben y gegin. Roedd y stôr hon o 'fala yn hwylus iawn i'r forwyn ar gyfnodau llwglyd! Edrychai ymlaen am gael mynd allan i Rosbrodrual i fferm Cae Derbi i nôl llaeth a menyn — a chael edrych unwaith eto tua Dinorwig a'r Fachwen, a gwrando corn y trên chwarel ar ei daith tua Bethel.

*'Ar nos Sadwrn cawn fynd yn rhydd ar ôl te — ond roedd rhaid bod i mewn yn ôl erbyn naw yr hwyr. Anodd oedd ymadael â'r dref ar nos Sadwrn gan fod cymaint o bobl o'r wlad yno. Byddwn yn arfer mynd a choleri Mr Francis i wraig weddw yn Stryd y Llyn i'w startsio at y Sul, a'm gorchwyl fyddai eu cyrchu bob nos Sadwrn ar fy ffordd adref erbyn naw. Aml dro yr anghofiwn o fwriad er mwyn cael esgus i fynd allan yr ail waith!'*

Roedd dwy gyfnither i Gwen Closs yn nyrsio, a phenderfynodd hithau ddilyn yr un yrfa. Ar 23 Mehefin 1923 dechreuodd ei hyfforddiant yn Crumpsall, Manceinion. Cychwynnodd ar 'Chronic Ward' lle'r oedd merched oedrannus a gwahanol afiechydon arnynt; rhai wedi eu parlysu. Un diwrnod rhydd yr wythnos oedd ar gael, ac yn ogystal â nyrsio ar y wardiau, roedd angen mynychu darlithoedd a chael cyfres o brofion ar wahanol agweddau o'r gwaith. *'Bychan iawn oedd y cyflog, a phleser oedd derbyn parsel o'r cartref. Torth wen a menyn ffres, ac ambel i wy fyddai'r cynnwys. Ar Fawrth Ynyd arferai Mam grasu crempog ar ddydd Llun a'i anfon i'n cyrraedd erbyn dydd Mawrth.'*

Bu yn Manceinion hyd 1927, gan wneud ffrindiau arbennig gyda dwy o chwiorydd a aeth yn ddiweddarach yn genhadon i Sylhet. Roedd ei brodyr, Ellis a David yn gweithio ym Manceinion ar y pryd hefyd — y ddau mewn siopau 'drapery'. Bydd hanes y cyfnod cynnar fel nyrs yn ymddangos y mis nesaf.

### 'MONKEY BRAND'

Cefais nifer o ddarllenwyr yn ymateb i'r cais ynglŷn â'r 'Monkey Brand' yr oedd sôn amdano yn y gân i Ffair Nant yn y rhifyn diwethaf. Amryw yn egluro mai sebon neu polish oedd o. Anfonodd Mr Edgar Parry, Caernarfon, gopi o hysbyseb am y nwydd gwerthfawr hwn — copi a ymddangosodd yn *'y cylchrawn uchel-ael "The Connoiseur" yn 1908, a hynny'n egluro'n fanwl ei holl rinweddau.'* Sylwch nad oedd yn addas i olchi dillad.

Roedd galwad ffôn arall yn adrodd hanes am ŵr plaen yr olwg (a dweud y lleiaf!), na feiddiaf ei enwi, yn galw ar ei wraig i ofyn iddi ble roedd y




MONKEY BRAND

ENSURES

LIGHT WORK
LIGHT HEARTS
BRIGHT HOMES

Shining: Bicycles, Motors, Machinery, Marble

Shining: Cutlery, Crockery, Enamel, Paintwork

WITHOUT BRIGHTNESS THE RICH ARE POOR
BRIGHTNESS MAKES THE POOR RICH

MONKEY BRAND

WON'T WASH CLOTHES

LEVER BROS. Ltd., Port Sunlight, ENGLAND

*The name LEVER on Soap is a guarantee of Purity and Excellence.*


Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr gan y bobl BROFFESIYNOL
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i CHWI
Y Gwasanaeth Technegol Gorau i'ch CAR. Cystal â Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych CHWI yn ei yrru, o Audi i Zastava

MOT — AA Specialist — RAC Selected

GEMINI SERVICE CENTRE

Car neu Fan / Petrol neu Disel / Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed ££ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW — YSTAD CIBYN — CAERNARFON (01286) 673559 — BOSCH SERVICE

'toilet soap' a hithau'n ateb yn ddigon sarhaus y gwnai'r 'Monkey Brand' y tro'n iawn!

Mae gan Mr Brython Jones, Caernarfon, y 'Monkey Brand' wedi ei lapio yn y papur gwreiddiol. 'Sgwn i faint fyddai gwerth hwnnw heddiw?

Diddorol nodi i'r brodyr Lever ddechrau cynhyrchu sebon yn ardl y Wirral tua canrif yn ôl, a sefydlu Port Sunlight. Roedd copïau o ddarlun enwog Vosper 'Salem' — Siân Owen, Ty'n y Fawnog, a'r diafol yn ei siôl — yn cael eu rhannu gyda'u sebonau ar un cyfnod. Tyfodd y cwmni gan arbenigo mewn olew llysiau, ac yn fuan wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf, prynwyd Margarine Uni o'r Iseldiroedd, a ffurfio'r cwmni amlwladol Unilever. Bellach amcangyfrifir bod dau o bob tri o bobl y byd yn prynu o leiaf un o'u nwyddau bob wythnos!

## BRYN FFORCH, NANT PERIS

Beth amser yn ôl roedd hanes am fudo o'r ardal i Awstralia, ac un o'r Cymry oddi cartref yn gofyn am gofio at y teulu ym Mryn Fforch, Llanberis. Cyfeirio yr oedd, wrth gwrs, at yr hen Lanberis, sef y Nant. Daeth y wybodaeth i law gan Mr Dewi Ellis, Field Terrace, Llanberis, yn egluro mai yn Nant Peris y mae Bryn Fforch, ac nid yn Llanberis. Dywed mai cartref taid a nain Mr Cledwyn Roberts (sy'n byw ar hyn o bryd yng Nghartref Bron Eryri, Llanberis) oedd Bryn Fforch. Roedd aelodau eraill o'r teulu i'w gweld mewn llun dosbarth Ysgol Sul a ymddangosodd yn yr *Eco* rai rhifynnau yn ôl.

## HEN GYNHEBRYNGAU

Yn dilyn hanes cynhebrwng Griffith Ellis o Ddinorwig, daeth ymateb gan Mrs Mair Roberts, Llanwnda, yn sôn am ei hatgofion o rai cynhebryngau a gofiai pan yn blentyn yn Llanberis. Diddorol sylwi ar yr arfer o 'ddangos parch' oddi ar y ponciau yn y chwarel gan na allai'r gweithwyr fforddio colli stem i fynychu'r angladd. Dyma sydd ganddi i'w ddweud:

*Pan oeddwn i'n blentyn yn Llainwen, Llanberis, fe welais i amryw g'nebrwng mawr. Fel arfer roeddent yn g'nebryngau pobl amlwg, flaengar yn y gymuned, neu'n gynhebrwng rhywun oedd wedi ei ladd yn y chwarel. Gan mai plant i chwarelwyr oeddem bron i gyd, gallem uniaethu â rhieni. Fel plant wedi eu magu yn y pentre roeddem yn gwybod i'r eiliad amseroedd caniad corn chwarel — amser dechrau gwaith yn y bore, ac amser rhoi'r gorau iddi am y dydd.*

*Rwy'n cofio'r lluoedd yn galw i 'ddanfon' nosweithiau cyn yr angladd, a'r rhes ddiddiwedd yn offrymu eu chwecheiniogau, swllt neu hanner-coron ar yr hances wen ar ganol bwrdd y parlwr ar ddiwrnod yr angladd. Cyn belled ag y cofiaf, anaml y cynhelid gwasanaeth yn y Capel ar ddydd y cynhebrwng, os nad oedd yr ymadawedig yn rhywun 'pwysig iawn'. Yn hytrach ceid gair o deyrnged yn y Seiat ar ôl yr oedfa nos Sul neu yn y Seiat ganol yr wythnos. Ar ddiwrnod yr angladd tyrrai'r bobl at y tŷ a cheid tyrfa anferth yn sefyll y tu allan. Gwneid lle i'r codwyr canu (swyddogol ac answyddogol) wrth y drws. Doedd dim angen pamffled emynau ar neb y pryd hwnnw.*

*Ys gwn i a oes rhai eraill o ddarllenwyr yr 'Eco' yn cofio gweld yr hyn welem ni, oedd yn byw yn Llainwen, Llwyndyrus, Mur Cwymp ac Eilian Teras? Gweld y clystrau bach o chwarelwyr oedd wedi dod at ei gilydd yn rhai o'r ponciau ar union amser y cynhebrwng. Efallai bod rhywun sy'n darllen hyn yn cofio bod mewn grŵp yn edrych i lawr ar yr hyn a ddigwyddai yn y pentref. Gan mor fach oedd eu cyflog ni allent fforddio colli stem, neu hyd yn oed hanner stem, i fynd i'r angladd, ond wrth gael eu rhyddhau o'u gwaith am ychydig funudau, ar union amser y cynhebrwng, teimlent eu bod yn rhannu yn y galar. Pan sylwais arnynt y tro cyntaf holais fy nhad beth oeddynt yn ei wneud a chofiaf ei ateb — 'Cydymdeimlo, cydalaru — canu emyn, a gadael i'r un oedd yn gallu dweud mewn geiriau dethol beth oeddent i gyd yn ei deimlo, eu harwain mewn gair a gweddi.'*

*Mae'r frawdoliaeth yn glòs, yn gynhaliol mewn cymdeithas sy'n dibynnu ar y môr, y chwarel, neu'r pwll glo, am eu bywoliaeth. Mae diogelwch un yn ddibynnol ar y llall. Dichon mai arwyddion ydynt o'r gymdeithas glòs, gynnes, ddibynnol y cawsom ein magu ynddi, a diolch fod cymaint o'r 'ymdeimlad o berthyn' yn parhau yn ardal 'Eco'r Wyddfa'.*



*Erbyn i'r rhifyn yma o'r Eco ddod o'r wasg bydd nifer o blant yr ardal wedi cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Wrecsam. Dyma lun o barti o'r ardal yma fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Rhydaman ym Mehefin 1957. Cawsant y 3ydd wobr allan o 12 o bartïon cydadrodd dan 12 oed. Oes rhywun all eu henwi?*



*Anfonwyd y llun uchod gan Guto Roberts, Y Groeslon. Dywed fod y llun ymysg papurau a gafodd flynyddoedd yn ôl gan William Hughes, Gorsaf Ynys, Eifionydd. Roedd William Hughes yn dod yn wreiddiol o Gwm-y-glo ac mae Guto yn gobeithio'n fawr y gall rhai o ddarllenwyr yr Eco daflu rhywfaint o oleuni arno. A yw'n llun o ddosbarth Ysgol Sul neu ddosbarth nos? Pwy tybed yw'r gŵr â'r het sy'n eistedd yn y canol. A ellir enwi rhywun arall sydd yn y llun? Mae nifer o'r dynion yn gwisgo bathodynnau crwn ar lapeli eu cotiau. Beth tybed yw eu harwyddocâd? Byddem yn falch o basio unrhyw wybodaeth ymlaen i Guto.*

## CYMDEITHAS GENEDLAETHOL FFYNHONNAU CYMRU

Ers dechrau'r flwyddyn mae mudiad ar droed i geisio sefydlu Cymdeithas ffynhonnau. Y person a fu'n bennaf gyfrifol am geisio ei hyrwyddo yw Eirlys Gruffydd, 4 Parc Hendy, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint. I'r rhai ohonoch sydd â diddordeb mewn ffynhonnau — eu rhinwedd a'u hofergoelion a'u hanesion — yna trefnwyd cyfarfod i lansio'r Gymdeithas ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog. Y dyddiad pwysig yw **15 Mehefin. Bydd y cyfarfod yn dechrau am 1.30 o'r gloch.** Os oes rhywun â diddordeb mewn perthyn i gymdeithas o'r fath, neu mewn bod yn bresennol yn Nhan y Bwlch, yna cysylltwch ag Eirlys Gruffydd **cyn 8 Mehefin.**


Un o amcanion y Gymdeithas yw gwarchod safleoedd ffynhonnau arbennig a chasglu gwybodaeth amdanynt. Mae nifer go dda o ffynhonnau fel hyn yn ein hardal ni — Ffynnon y Sant yn Llanberis, Ffynnon Chwerthin, Ffynnon Cegin Arthur, Ffynnon Deiniolen a'r Ffynnon Fedydd, i gyd yn Llanddeiniolen.

* * * *

Os oes gan unrhyw un ohonoch wybodaeth, neu ymholiad, am agweddau o hanes y fro, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286) 673515.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
DEWCH AT
BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

# BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

**Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115**

**Diolch:** Dymuna Gareth a Rhian Hughes, Lois a Rhys, Erddig, Bethel, ddiolch o galon i'w cymdogion, ffrindiau ac aelodau Cantorion Elidir am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain. Diolchir i'r Parchg W. R. Williams a blaenoriaid Capel Cysegr am eu cymorth.

**Diolch:** Dymuna Mrs Nan Owen, Berwyn, ddiolch am y llu cardiau, blodau a'r galwadau a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch yn fawr i bawb.

**Merched y Wawr:** Cafwyd noson ddifyr ac addysgiadol yng nghyfarfod nos Fercher, 8 Mai, pan fu Mr Richard Owen o Goleg Menai yn arddangos i'r aelodau y grefft o wneud basgedi blodau crog. (Disgwylir y bydd Bethel yn fôr o liwiau yn ystod yr haf!)

Cyhoeddodd y llywydd, Mrs Gwyneth Jones, fod pwyllgor anabl Merched y Wawr yn cynnal Bore Coffi yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon, fore Gwener, 17 Mai (elw tuag at offer i'r byddar), a gofynnwyd i bawb baratoi teisen ac fe fydd naill ai Edwina Morris, Glenys Griffiths neu Nora Parry yn fodlon eu derbyn cyn nos Iau, 16 Mai.

Bu rhai aelodau o'r ganen yn helpu gydag arlwyaeth yn Rali'r Ffermwyr Ieuainc a gynhaliwyd yn Nglynllifon fore Sadwrn, 18 Mai.

Drwg iawn oedd gennym glywed am brofedigaeth Mair Read, wedi colli ei hewythr, a chydymdeimlwyd â hi a'r teulu.

Ymddiheurodd y llywydd am beidio llongyfarch Gareth Birkett yn y cyfarfod diwethaf am ei lwyddiant fel aelod o'r sioe 'Roc a Rôl'.

Dymunwyd yn dda i Bet a Seiriol Owen ar eu taith gerdded.

Gwestwragedd y noson oedd Glenys Griffiths a Meinir Jones a diolchwyd i'r gŵr gwadd gan Bet Owen, ac enillydd y raffl oedd Nora Parry.

Bydd y tymor yn dod i ben gyda chyfarfod mis nesaf (12 Mehefin) pan awn ar ein taith ddirgel flynyddol. Os ydych yn dymuno dod ar y daith rhowch wybod i Joyce erbyn 5 Mehefin, os gwelwch yn dda. Pris y daith fydd £10 gan gynnwys bws, bwyd a raffl.

**Yr Ysgol Feithrin:** Nos Wener, 19 Ebrill, yn y Neuadd Goffa, cynhaliwyd atyniad a menter arbennig iawn, sef 'Ocsiwn Fawr' yr Ysgol Feithrin. Llwyddwyd i gael un o bersoliaethau mwyaf blaenllaw ym myd y cyfryngau i fod yn Ocsiwnïar a chafwyd noson hwyliog o brynu a gwerthu brwd yng nghwmni arbennig Hywel Gwynfryn. Llwyddwyd i werth pob un o'r wythdeg o eitemau oedd ar y rhaglen a gwnaed elw anrhydeddus o £1,712.11. Mae'r elw hwn yn mynd i gronfa'r Ysgol Feithrin i'w ddefnyddio er budd a lles y plant. Ni fyddem, wrth gwrs, wedi llwyddo i godi cymaint o arian oni bai am haelioni llu o gwmnïau ac unigolion. Dymuna'r pwyllgor, rhieni a staff yr Ysgol Feithrin, ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ddull a modd tuag at lwyddiant ysgubol y noson.



Mari Gwilym yn adrodd stori i blant Dosbarth 2 yr Ysgol Feithrin.



Aelodau o Gantorion elidir yn cyflwyno rhodd o offer meddygol i nyrsus lleol.

**Cyfarfod Cyffredinol:** Cynhelir y cyfarfod blynyddol yr Ysgol Feithrin nos Fercher, 5 Mehefin, am 8 p.m. Cyn y cyfarfod, am 7.30 p.m., bydd cyfle i rieni sydd â'u plant yn dechrau'r ysgol o'r newydd ddod i gyfarfod aelodau o'r stgaff i drafod cyfnod eu plant yn yr Ysgol Feithrin.

**Enillwyr Clwb 200 y Neuadd Goffa** — £20: Mrs Margaret Druce, 9 Tan-y-cae (183); £10: Mr Ian Pierce, Swyn yr Awel, Llanrug (206); £5 yr un: Miss Angharad Price, 5 Tan-y-ffordd (170); Mrs Margaret Williams, Llanddwyn (82); Mrs Eunice Roberts, 4 Y Rhos (218); Mr Dennis Harrison, Bakhita (181); Ms Iona Williams, Alun House (152); Miss Heather Hughes, Coed Bolyn (5); Mr Emyr Price, 5 Tan-y-cae (169); Mrs Bessie Ellis, 15 Cremlyn (24).

**Clwb 100 yr Ysgol:** Enillwyr gwobrau mis Mai oedd — £20: Avril Jones, Minffordd (31); £15: Pat Owen, Cefn Cynrig (90); £10: Wendy Grail, 19 Y Ddôl (101); £7: Elisabeth Evans, Blaen Parc (50); £5: Mrs I. Jones, 14 Bryn Paun, Llangoed (7). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Newyddion o'r Ysgol:** Nos Wener, 21 Mehefin, cynhelir noson Barbeciw yn yr Ysgol am 6.30 o'r gloch. Yn ystod y noson ceir amrywiaeth o salad a byrgar cyw iâr, cig oen a llysieuol, am bris rhesymol iawn. Bydd stondinau, gêmau a chastell neidio.

Nos Sadwrn, Mehefin 15, bydd Côr yr Ysgol yn canu gyda Cantorion Elidir ac artistiaid eraill ym Mangor. Hyfforddir y côr gan Mrs L. P. Roberts Williams.

Dymunir yn dda i dîm gala nofio'r Ysgol fydd yn cynrychioli'r Ysgol mewn gala nofio yn erbyn ysgolion y cylch yng Nghaernarfon yn ystod mis Mehefin.

**Cydymdeimlo:** Ddydd Sul, Mai 19, ar ôl cystudd hir, bu farw Hywel Owen, Cremlyn. Estynnir pob cydymdeimlad â Mrs Phylis Owen a'r meibion yn eu profedigaeth.

**Plygu'r Eco:** Mae tro Bethel i blygu'r Eco wedi dod unwaith eto. Bydd y gwaith yn cychwyn yn y Neuadd am 6.30 o'r gloch nos Iau, 27 Mehefin. Gerthfawrogir pob cymorth yn ystod y noson boed hynny am hanner awr neu nes bydd y gwaith wedi'i gwblhau.

Cerrig Beddau
Glanhau y Garreg ac Ailbeintio Llythrennau
Ffoniwch am bris (01286) 830041

Gwynedd Hotel & Restaurant
Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION
Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

OSMOND SHAW
DEINIOLEN
GWERTHU - TRWSIO
★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

# DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch. Ffôn: (01286) 870576

**Y Ganolfan:** Er nad oedd nifer luosog iawn yn bresennol yn y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd ar 9 Mai, cafwyd cyfarfod buddiol dros ben. Etholwyd swyddogion newydd gyda Mr Dafydd Lloyd Hughes yn lywydd; Mrs Karen Jones yn ysgrifennydd; a Miss Marian Jones yn drysorydd. Diolchwyd i Mrs Hannah M. Roberts am ei gwasanaeth di-dor ers 1978 fel ysgrifenyddes ar bwyllgor y Ganolfan. Dyma wasanaeth clodwiw os bu un erioed, ac mae ein diolch yn fawr iddi am ei chyfraniad pwysig dros yr holl flynyddoedd. Mae'n haeddu cael ymddeol – ond pwysleisier mai ymddeoliad cynnar ydyw. Cafwyd adroddiadau ariannol y Clwb Snwcer a'r Ganolfan a diolchwyd i'r trysoryddion am eu gwaith trylwyr. Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd Mrs Karen Jones yn anfon gwahoddiadau i bob cymdeithas a mudiad lleol sy'n defnyddio'r Ganolfan i enwebu cynrychiolwyr i weithredu ar bwyllgor y Ganolfan ac fe gynhelir cyfarfod cyntaf y pwyllgor hwnnw ar 9 Medi am 7.30 o'r gloch.

**Cymdeithas Tenantiaid:** Yn ystod cyfarfod blynyddol y Ganolfan trafodwyd sefydlu Cymdeithas Tenantiaid ar gyfer trigolion Bro Elidir a Maes Eilian. Byddai aelodaeth o gymdeithas o'r fath yn agored i rai sydd wedi prynu tai yn ogystal â rhai sydd yn rhentu eu tai gan Gyngor Gwynedd. Pwrpas cymdeithas o'r fath fyddai rhoi llwyfan i faterion yr hoffai y trigolion eu trafod ynglŷn â'r ddwy stad – fel gwella cyflwr y tai a materion cymdeithasol eraill. Cryfder cymdeithas o'r fath fyddai cael pawb i siarad ag un llais ac o'r herwydd mewn sefyllfa well i ddadlau eu hachos gyda'r awdurdodau perthnasol. Byddai llwyddiant cymdeithas o'r fath yn dibynnu ar awydd y trigolion i ffurfio eu grŵp eu hunain. Os oes gennych ddiddordeb yna byddai y Cynghorydd Len Jones, Deiniolen, yn falch o glywed gennych. Efallai y byddai o fantais i gynnal cyfarfod yn y Ganolfan i'r trigolion perthnasol i egluro'r syniad a'r ffordd i symud ymlaen.

**Defnydd o'r Ganolfan:** Yn sgîl cynnal Bore Coffi, a drefnwyd gan bwyllgor y Ganolfan, a gynhaliwyd fore Sadwrn, 27 Ebrill, trafodwyd nifer o syniadau ynglŷn â'r defnydd tebygol a ellir ei wneud o'r Ganolfan. Un syniad oedd sefydlu Clwb Ffilmiau ac eisoes mae grŵp llywio wedi'i sefydlu ac wedi cyfarfod ddwywaith ers hynny. Mae'n debyg y byddwn yn clywed mwy am hyn yn ystod yr wythnosau nesaf gan bod rhai o aelodau'r grŵp llywio yn mynd o gwmpas yr ardal gan egluro mwy am Glwb o'r fath ac yn ceisio ennyn diddordeb cymaint ag sydd bosib yn y fenter newydd hon. Syniad arall a soniwyd amdano oedd cael cyfarfodydd anffuriol dros baned o de a bisgedi rhwng Cymry Cymraeg eu hiaith a'r rhai sydd yn dysgu Cymraeg ac yn dymuno arfer yr iaith lafar. Un o broblemau mwyaf y dysgwyr yw cael pobl i siarad Cymraeg â hwy gan fod tueddiad ynom i sgwrsio â hwy yn yr iaith fain. Hyd yma nid yw'r syniad hwn wedi gweld golau dydd ond gobeithir na fydd yn rhy hir cyn y gwelwn gyfarfodydd o'r fath yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn y Ganolfan. Oes yna fwy o syniadau ar gael? Os oes, ewch ati i drefnu gweithgareddau.

**Dymuniadau Da** i Miss Florrie Davies, 3 Bro Elidir, sydd ar hyn o bryd yn preswylio yn Plas Pen-gwaith, Llanberis. Yr un yw ein dymuniadau hefyd i Miss L. Thomas, Llidiart y Clo gynt, a Mr David John Thomas, 8 Bro Elidir gynt – y ddau ohonynt yn preswylio ym Mhlas Pen-gwaith. Fe'u gwelais yn ddiweddar ac roedd y tri ohonynt yn edrych yn dda ac yn cofio'n annwyl iawn am bawb yn Ninorwig, ac yn diolch am yr ymweliadau rheolaidd gan lu o gyfeillion.

**Diwedd Tymor** (Gyda tymor y Gymdeithas Undebol wedi dod i ben am eleni mae Miss Marian Jones wedi paratoi'r adroddiad canlynol imi, ac fe hoffwn ddiolch iddi am yr adroddiad hwn, fel sawl un arall yn ystod y tymor.): Yn y Ganolfan, nos Iau, 25 Ebrill, daeth y tymor i ben gan lwyfanwyd dwy ddrama fer gan Gwmni Drama Llanberis. Y ddwy oedd 'Rhwng Te a Swper' a 'Dalar Deg'. Llywydd y noson oedd Miss Marian Jones, a braf oedd gweld y Ganolfan yn llawn. Rhoddodd Mr Ieuan Williams fws yn rhad ac am ddim i ddod a charedigion y Gymdeithas i'r Ganolfan, a'u cludo adref, a diolchwn i Mr Tydfil Jones am wneud y trefniadau gyda Mr Ieuan Williams.


Cafwyd noson hynod o hwyliog a llwyddiannus a braf iawn oedd gweld cymaint o blant yn bresennol a hwythau hefyd yn mwynhau eu hunain – a rhaid eu canmol am fod yn blant mor dda. Barn pawb oedd iddynt fwynhau eu hunain yn fawr iawn ac mai peth da fyddai cael mwy o'r math hwn o adloniant yn y Ganolfan.

Ar ddiwedd y tymor rhaid dweud i ni gael tymor llwyddiannus iawn a chynulleidfa dda ar gyfer pob cyfarfod. Yn naturiol fe fyddem yn falch o weld mwy eto o'r ardalwyr yn dod. Beth amdani y tymor nesaf? Gobeithio'n fawr y gallwn gadw'r safon ac edrychwn ymlaen am yr un llwyddiant y tymor nesaf. Diolch am bob cefnogaeth. Dymuna swyddogion y Gymdeithas ddiolch o galon i Mr Ieuan Williams, Glanffrwd, Deiniolen, am fod mor garedig a rhoi bws a dreifar yn rhad ac am ddim i gludo cyfeillion o Ddeiniolen i fyny yma i Ddinorwig i ymuno â ni i wylio'r dramâu. Diolch yn fawr Ieuan.

**Arholiadau:** Dydio'n rhyfedd deudwch – bob tro mae'r arholiadau ysgolion a cholegau ymlaen mae'r tywydd yn digwydd bod yn braf ar yr un pryd. Felly oedd hi'n ymddangos pan oeddwn i yn yr ysgol a choleg ers talwm! Pob hwyl i blant a phobl ifainc yr ardal sydd yn wynebu arholiadau yr adeg yma. Gwneud eich gorau – ni ellir gofyn mwy na hynny.

**Adolygu Gwasanaethau:** Mae Cyngor Gwynedd wrth ar hyn o bryd yn adolygu nifer o wasanaethau a ddarperir ganddynt ar gyfer y cyhoedd. Maent yn gofyn i bob Cynghorydd Cymuned adrodd iddynt, cyn canol Gorffennaf, am farn y gwahanol bentrefi am y gwasanaethau cyhoeddus, e.e. sgipiau cymunedol, glanhau'r strydoedd, casglu biniau 'sbwriel, ac ati. Os oes gennych sylwadau i'w gwneud ynglŷn ag unrhyw un o'r gwasanaethau hyn yna byddai'r Cynghorydd Glyn Tomos yn falch o glywed gennych.

**Llwyddiant:** Yng Nghymanfa Dosbarth Arfon, a gynhaliwyd yng nhapel Rehoboth, Nant Peris, ar 4 Mai, daeth canlyniadau da iawn i Ysgol Sul Capel M.C. Dinorwig gyda'r ymgeiswyr i gyd yn ennill marciau llawn. Dan 4: Elin Ann Morris a Gwenno Morris. Dan 6: Sioned Mai Phillips a Rhian Wyn Morris. Dan 8: Donna Elizabeth Phillips. Dan 9: Ceri Bryn Morris. Dosbarth oedolion: Miss Marian Jones, Mr John Peris Roberts a Mrs Betty Peris Roberts. Da iawn wir.




## DRAENOG



**Un o chwaraewyr rygbi Llanelli yn cael ei holi ar y teledu. Y tu ôl iddo, hogyn o Lanberis yn codi ei law yn llon. A gartra yn Llanberis, ei fam, wedi gwirioni o weld y bychan ar y teledu, yn neidio o'i chadair a chodi llaw yn ôl arno. Dim ond wedyn y sylweddolodd nad oedd Aaron Wyn yn gallu ei gweld hi.**


**Wavell Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: (01286) 673574
*PEN CIGYDD Y FRO*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...






**BYSIAU ARFON**
**LLANRUG**
**(Eric Morris)**
**Ffôn: (01286) 675175 a 677858**

**GERAINT OWEN**
Gosodwr carpedi
a phob math
o loriau
Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn: (01286)
650552

# O Ben'sarwaun i ben draw'r byd . . .

**Ail ran hanes taith Hogia'r Wyddfa a chyfeillion i Awstralia gan ARWEL JONES**

**Yn rhifyn Ebrill 1996 o *Eco'r Wyddfa* sonia Delyth Parry, yn ei cholofn hynod ddiddorol, am faint ac ehangder Awstralia. Meddai, *'Roeddwn i'n gwybod fod Awstralia'n fawr ond, mam bach, mae'r lle yn A-N-F-E-R-T-H!'* 'Amen Delyth,' medda finna.**

Pan ddaeth nam i beiriant recordio Dafydd Meredydd dywedodd Eurwyn Roberts wrtho yn hamddenol braf (dros frecwast), 'Paid â phoeni Dafydd, mi bicia i â chdi i Picton i'w drwsio fo rŵan — fyddwn i ddim chwinciad!' Pan ddychwelodd y ddau ganol bore sylweddolodd Dafydd fod y 'picio' yn golygu teithio yr un pellter â'r pellter sydd rhwng Llanberis a Chaer! Dyna i chi enghraifft o ehangder y lle. Mesurir pellter yno mewn amser yn hytrach na milltiroedd neu cilometrau. Yn wir, am dair wythnos buom fel criw yn teithio'r amserau yn gweld rhyfeddodau'r wlad a phrofi awyrgylch a chroeso cynnes y trigolion.


Fflachiadau'n unig ddaw yn ôl erbyn hyn — ond fflachiadau fydd yn parhau ar femrwn y côf am byth. Nid oedd yr un ohonom wedi sylweddoli cyn cychwyn beth oedd oblygiadau'r daith i Sydney. Cychwyn yn oriau mân fore Llun a chyrraedd pen y daith ben bore ar ddydd Mercher canlynol. Roedd hon yn daith a gynhwysai un awr ar hugain o amser hedfan gyda deuddeg awr o saib yn Hong Kong. Arhoswn felly yn Hong Kong am ennyd. Mae hon yn ddinas anhygoel yn swatio'n glòs mewn gwasgod o fynydd ar arfordir de-ddwyrain China. Mewn amrantiad gwelsom foethusrwydd yn bodoli ochr yn ochr â thlodi, bwrlwm a phrysurdeb strydoedd culion yn llawn aroglau â brociai gywreinrwydd y ffroenau. Roedd i bob siop a bwyty ei arogl unigryw a'r cwbl yn anffodus yn gymysg â'r aroglau a chwydai o grombil periannau'r traffig diddiwedd. Ond i fod yn deg â Hong Kong — dim ond yr ardal 'dlodaidd' a brofais i.

Roed y croeso fore Mercher ym maes awyr Sydney yn gynnes a diffuant. Gwelsom o bellter y Ddraig Goch a mintai o bobl o'i chwmpas. I'n croesawu yn swyddogol roedd Cadeirydd y Gymdeithas Gymraeg yn Sydney, Dr Haydn Lloyd Evans. Yr oedd wedi teithio pellter o dair awr o'i ffermdy ger Canberra i'n croesawu. Hanai'r Dr Evans o Ddinbych ond bu'n fyfyriwr yng Ngholeg Amaeth Glynllifon yn y pumdegau. Symudodd i Awstralia ble bu'n bennaeth coleg amaethyddol ac yn fwy diweddar yn ffermio. Cawsom ein cyflwyno i'n gwestywyr. Pobl hawddgar oedd yn amlwg yn edrych ymlaen at ein croesawu a'n tywys i fannu cynhesrwydd eu haelwydydd ac at gael y 'diweddara o adra'! Cymru oedd 'adra' o hyd iddynt. Roedd eu balchder o'r 'hen wlad' yn ddiffuant iawn. Buan iawn y datblygodd perthynas agos a hapus rhyngom a'n gwestywyr. Ymgartrefodd Rosalind, Myrddin a Deian ar aelwyd Glaslyn, Bow Bowing, cartref Merfyn a Mai Roberts (gyn o Benrhyndeudraeth a Dyffryn Ardudwy); Vivian a Gwyneth ar aelwyd Carwyn, cartref Harry a Liz Lewis (gynt o Ddinorwig a Deiniolen); cymerwyd teulu Cynefin o dan adain Brenda a Bill Edwards a Cynthia a Dave Minnock (Brenda a Cynthia gynt o Tan Merddyn, Ceunant); Elwyn, Hefina, Dafydd a minnau ar aelwyd Eurwyn a Grace Roberts (gynt o Lanrug, Caernarfon a Bethel). Drwyddynt hwy y daethom i adnabod cornel fechan o'r wlad enfawr hon.

Gan fod pawb ar wasgar bydd yn rhaid i mi gyfyngu'r adroddiad i'm hargraffiadau i o Awstralia. Byddwn yn deffro yn y boreau yn nhŷ Grace ac Eurwyn i synau anghyffredin iawn. Côr y Wig — ond côr o leisiau neu chwibannau gwahanol iawn. Nid oedd Aderyn y To na Robin Goch na Titw Tomos Las yn y côr hwn. Côr swnllyd, byddarol ar brydiau, oedd hwn a gynhwysai barotiaid lliwgar, cocatŵs gwynion â chribau melyn a phob un yn awchu am frecwast Grace.

Un o uchafbwyntiau fy ymweliad â Sydney yn ddi-os oedd gwledda ym mwyty'r Centerpoint — tŵr symudol ac adeilad uchaf Sydney. Yno mewn stafell gron a droai yn araf a hamddenol cawsom gyfle i wledda ac i ryfeddu'r un pryd at olygfeydd y ddinas hardd oddi tanom. Dinas cymharol newydd yw Sydney wedi ei lapio'i hun o amgylch harbwr hwylus ond erbyn hyn wedi ehangu am filltiroedd maith draw i'r 'bush'. Nid dinas fawr ddigymeriad yw Sydney. Mae iddi hanes cythryblus a diddorol ac adeiladau a mannau sy'n procio chwilfrydedd dyn. Gellir treulio dyddiau yn gweud o amgylch harbwr Darling yn gweld rhyfeddodau: teithio mewn bâd yn yr habwr, neu gerdded neu ddefnyddio'r 'mono-rail' a ymlwybrai fel neidr drwy'r ddinas. Gwelir yma amrywiol siopau, tai bwyta, amgueddfeydd, swyddfeydd ac adeiladau sy'n cael eu cydnabod ymhlith y rhai mwyaf enwog yn y byd. Dyma gynefin y Tŷ Opera rhyfeddol a'r Bont Haearn, a mwy.

Ar gyrion y ddinas mae rhai o fannau enwocaf Awstralia. Drachtiais awyrgylch heintus Botany Bay un 'nawnddydd braf. Sefais am ysbaid yn yr union fangre (yn ôl traddodiad) ble y bu i Capten James Cook lanio a throedio yn 1770. Gwelodd y bae fel man hyfryd yn llawn o blanhigion dieithr a diddorol ac fe'i galwodd yn Botany Bay. Nid Cook, serch hynny, oedd yr Ewropead cyntaf i droedio



*Annette Bryn Parri oedd yn cyfeilio i'r Hogia yn Awstralia.*

Llun: Arwyn Roberts


Awstralia ond yn ddi-os ei ddarganfyddiad ef o New South Wales ddechreuodd y mewnlifiad ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Cyn hynny defnyddiwyd yr ardal i garcharu drwgweithredwyr o Brydain. Bryd hynny, ac yn ddiarwybod i Cook, trigai bron i filiwn o Aboriginiaid ar y cyfandir newydd. Cyhoeddodd Cook fod y lle yn wag a diffaith! Roedd yr Aborigini wedi meddiannu'r tir ers dros 50,000 o flynyddoedd. Erbyn hyn nid oes ond 265,000 ohonynt ar ôl gyda'r rhelyw yn gadael y diffaethwch ac yn ymgartrefu mewn tlodi yn y dinasoedd.

Ar gyrion Sydney eto y mae un o draethau enwoca'r byd — Traeth Bondai. Yma y rhuthra tonnau mawrion y Pacific i chwydu ei ewyn gwyn hyd dywod mân ac euraid y bae crymanog. Taith cymharol fychan ydyw, ond yn llawn cymeriad. Yma, o flaen torf, y canodd Myrddin eiriau Selwyn Griffith i'r Traeth, gyda'r trigolion yn gwrando mewn syfrdan ar yr iaith ddieithr; yma y plymiodd un o'r tonnau mawrion ar ben un ohonom gan ei gadel hithau yn wlyb at ei chroen! Mi fyddai popeth wedi bod yn iawn petai hi wedi gwisgo ei bicini yn hytrach na'i ffrog!

Uchafbwynt arall oedd treulio diwrnod, dan arweiniad Merfyn Roberts, yn y Mynyddoedd Gleision (Blue Mountains). Mynyddoedd yw'r rhain sy'n cael eu hamgylchynu gan wawr


**FFENESTRI PADARN**

**FFENESTRI · DRYSAU**
**YSTAFELLOEDD HAUL**



**UPVC**

Gadewch inni roi pris — am ddim

**Ffoniwch: (01286) 871774**
**2 Tai Bwthyn**
**PENISARWAUN**



**GARTH MAELOG**

**PET CENTRE AND GROOMING SALON**

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

**STRYD FAWR, LLANBERIS 870840**



**R. M. (DIC) PARRY**

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
**TAWELFA, PENISARWAUN**
**Ffôn: (01286) 870846**

las yn barhau. Dywedir mai'r nwyon a gynhyrchir gan y gum trees sy'n gyfrifol am hyn. Treulio orig wedyn yn rhyfeddu at yr olygfa ger y 'Tair Chwaer' — tair craig anferth yn ymwthio o dywyllwch a chrombil y fforest islaw. Mentrodd rhai ohonom i blymio mewn 'mono-rail' fechan i lawr i ddyfnderoedd y dyffryn ac i ganol y goedwig drofannol ei naws a'i hawyrgylch. Hon oedd y 'mono-rail' fwyaf serth yn y byd yn ôl pob sôn — ac fe goelia' i!

Braf oedd cael cyfarfod â gweddill teulu Tan Merddyn mewn barbeciw yng nghartref Bill a Brenda. Yno y cawsom gyfarfod Margaret a'i gŵr Les, a'r brawd 'bach', Douglas. Pnawn a noson i'w chofio — bwyd a'r gwin yn llifo a'r hel atgofion yn mynd yn felysach fel y taenai'r nos ei fantell dros griw o Gymry hiraethus!

Yna teithio pedair awr i'r de-orllewin i dreulio penwythnos fythgofiadwy ym mhrifddinas Awstralia — Canberra. Cyfarfod ac aros gyda gwestywyr cyfeillgar a chroesawus unwaith eto a chael eiin tywys i ymweld â'r ddinas ryfeddol hon. yr unig ddinas fawr yn Awtralia heb fod ar lan y môr! 'The Bush City' fel y disgrifiai Les Gittins hi. Cefais fy nhywys o amgylch y ddinas gan les a chan fod ei adnabyddiaeth o'r ddinas mor dylwyr fe'm gwefreiddiwyd. Rhaid mynd i gopa bryn i werthfawrogi'r ddinas. Oddi yno gwelir dinas hardd, drefnus gyda Mynyddoedd yr Eira (Snowy Mountaints) yn gefndir urddasol iddi.

Canolbwynt y ddinas yw'r Senedd-dŷ. Dyma un o senedd-dai rhyfedda'r byd. Mae'r adeilad gwyn fel petai wedi ei adeiladu i mewn i fryn. Gellir cerdded i mewn i'r Senedd-dŷ drwy'r seler a cherdded allan drwy'r to! Oddi amgylch saif cartrefi y Prif Weinidog a sawl aelod seneddol ynghyd â swyddfeydd llysgenhadon y byd. Orig i'w thrysori heb os. Dwy noson arall o wledda a hel atgofion am Ceunant y pumdegau cynnar ar aelwyd Bryn Awelon. Llond tŷ o hwyl ac ambell ddeigryn slei wrth olrhain gorchestion y diweddar annwyl Huw Alun.

Cyn ffarwelio a throi yn ôl tua Sydney i bacio a pharatoi. Roedd yr amser yn dirwyn i ben, Ond ow, och ac alas! Rhyw ychydig filltiroedd o Sydney daeth galwad ffôn i'r car oddi wrth Margaret: 'Ble ma' dy "passport" di Arwel bach?' Yn y fan a'r lle sylweddolais fy mod wedi ei adael ym Mryn Awelon, Canberra! Roedd Canberra erbyn hynny bron i bedair awr i ffwrdd. Doedd wiw ei bostio — roeddwn yn cychwyn am adref y bore canlynol! Mynnodd Les ddod yr holl ffordd ar ein hôlau. Byddaf ddiolchgar iddo tra byddaf byw. Pwy fyddai'n meddwl cychwyn ar daith o Lanberis i Gaerdydd ac yn ôl oherwydd diffyg cof twpsyn di-feddwl!

Wrth bacio y noson honno llifai llu o atgofion melys eraill i'r cof — y barbeciw rhyfeddol, bwyta yn y Sizzlers, y gwmniaeth braf ar y cyrsiau golff, gweld Jaci (cefnwr Mountain Rangers gynt) am y tro cyntaf ers dros chwarter canrif, y fo a'i briod yn edrych mor dda, yr amgueddfa fôr yn Darling Harbour, a llawer mwy.

Un stori i gloi. Rhywle yng nghanol y 'bush' daeth dau fachgen ifanc at Rosalind, Moi a Deian gan eu cyfarch yn Gymraeg: 'O ble da chi'n dwad?' oedd sylw un ohonynt. 'O ogledd Cymru — ardal Pwllheli a Llanberis.'

'O, felly! Ydach chi'n nabod Arwel Jones?' oedd y sylw nesaf gan y gŵr ifanc.

'Yndan yn iawn — mae o hefo ni ar y daith, ond ei fod o ar hyn o bryd yn Sydney,' oedd ateb Rosalind.

'Tewch â deud — dew mi faswn i wrth fy modd ei weld o i gael sgwrs dros beint.'

'Pwy ddeuda i sy'n cofio ato?'

'Dewi Williams, un o'i gyn-ddisgyblion yn ysgol Gaerwen gynt. Cofiwch fi ato fo.'

Tydi'r hen fyd ma'n fychan wedi'r cwbl!

# Eisteddfod Llanberis

Cynhaliwyd Eisteddfod Llanberis nos Wener, Mai 24, yn festri Capel Coch. Dros bum awr cafwyd cystadlu da a brwdfrydig ac yr oedd cynulleidfa gref yno hyd y diwedd. Yr arweinyddion oedd Mrs Falmai Pritchard a'r Dr Robin Parry; a'r beirniaid oedd Miss Haf Morris, Llandegfan (cerdd), Mrs Madge Hughes, Mynytho (llefaru a llên), a Mr Dylan Williams, Caernarfon (celf). Mrs Mair Roberts, Dinas, Llanwnda oedd y llywydd yr Eisteddfod, a chafwyd anerchiad graenus ganddi. Dymuna aelodau'r pwyllgor ddiolch am bob cefnogaeth i'r Eisteddfod. Cyflwynwyd cwpanau newydd a brynwyd ag arian nawdd a gafwyd gan Garnifal y pentref, a diolchir yn arbennig am y hawdd hwnnw.

**Cystadlaethau llwyfan.**

**Canu dan 4:** 1, Miriam; 2, Lowri. **Canu 4 oed:** 1, Manon; 2, Ceri; 3, Angharad a Garym. **Llefaru dan 4 oed:** 1, Miriam; 2, Lowri. **Llefaru 4 oed:** 1, Angharad a Manon; 2, Llion a Ceri. **Canu 5 oed:** 1, Gwion; 2, Sara; 3, Bedwyr ac Albert. **Llefaru 5 oed:** 1, Bedwyr; 2, Sara Jones; 3, Gwion a Sara Parry. **Canu 6:** 1, Ian; 2, Nicola; 3, Mared. **Llefaru 6 oed:** 1, Tomos; 2, Ian; 3, Gwyn. **Canu dan 8:** 1, Joseff; 2, Angharad; 3, Jade. **Llefaru dan 8:** 1, Angharad; 2, Joseff; 3, Carwyn a Jade. **Canu 8-10:** 1, Elin Mai; 2, Carys; 3, Rhiannon. **Llefaru 8-10:** 1, Elin; 2, Elin Mai; 3, Gruffudd a Sioned. **Canu 10-12:** 1, Gwen. **Llefaru 10-12:** 1, Dafydd; 2, Bethan; 3, Gethin. **Unawd werin dan 12:** 1, Elin Mai. **Unrhyw offeryn cerdd dan 12:** 1, Gwen (piano); 2, Elin Mai (piano) a Llifon (piano); 3, Dafydd. **Cân Actol dan 12:** 1, Grŵp Capel Coch. **Canu 12-15:** 1, Ffion Hughes. **Unrhyw offeryn cerdd 12-15:** 1, Ffion (piano). **Canu'r piano agored — Cwpan Coffa Miss C. Williams, Summer Hill:** 1, Ffion. **Llefaru 15-19:** 1, Erica. **Unawd 19-50:** 1, Valerie Jones; 2, Falmai Pritchard a Robart John Williams. **Canu emyn-dôn dros 50:** 1, Dilys Mai Roberts; 2, Robart John Williams; 3, Clara Roberts. **Deuawd dros 19:** 1, Dilys Mai Roberts a Delyth Williams.

**Llên.**

**Llinell goll:** 1, Hugh Jones, Deiniolen. **Limrig:** Diana Davies, Llanberis.

**Enillydd Cwpan Carnifal Llanberis dan 12 oed:** Elin Mai Jones.

**Enillydd Cwpan Carnifal Llanberis dan 15 oed:** Ffion Hughes.

**Cystadlaethau Arlunio.**

**Dan 4 oed: (bechgyn)** 1, Ben; 2, Adrigel; 3, Siôn; **(genethod)** 1, Megan; 2, Sasha; 3, Natasha. **4 oed: (bechgyn)** 1, Kieren; 2, Garym; 3, Mathew John; **(genethod)** 1, Ceri; 2, Manon; 3, Janie. **5 oed:** 1, Gwion Rhys Jones; 2, Albert Bedlow; 3, Bedwyr Owen Davies. **Dan 6:** 1, Gwyn Jones; 2, Alice Butler; 3, Llywel Pitts. **Dan 8:** 1, Jade Roberts; 2, Gwen Tomos; 3, Gwenonwy Alun. **8-10:** 1, Elin Roberts; 2, Carys Hughes; 3, Rhiannon Jones. **10-12:** 1, Gethin Siôn; 2, Awen Griffith; 3, Bethan Roberts. **12-15:** 1, Sarah Jones.

**Rhyddiaith.**

**Dan 4 oed:** 1, Megan; 2, Sasha; 3, Siôn. **4 oed:** 1, Heledd; 2, Garym; 3, Angharad. **5 oed:** 1, Iwan Wyn Williams; 2, Sarah Jones. **6 oed:** 1, Anwen Roberts; 2, Nicola Hughes; 3, Tomos Parry. **Dan 8:** 1, Joseff Owen; 2, Alex Parry; 3, Sian Angharad. **8-10:** 1, Carys Wyn Hughes; 2, Michelle Allsup; 3, Elin Roberts. **10-12:** 1, Dafydd Pritchard; 2, Gethin Siôn; 3, Caryl Williams. **12-15:** 1, Ffion Hughes.

**Enillydd Cwpan Carnifal Llanberis am y gwaith rhyddiaith gorau dan 12 oed:** Dafydd Pritchard.

## RYGBI YN LLANELLI

Dydd Gwener, Ebrill 19, 1996 fe aeth tîm rygbi'r Urdd i lawr i Lanelli i chwarae rygbi mewn twrnament.

Roedd y twrnament ar y dydd Sadwrn ac roedd y tîm yn cysgu yn y Strady Park Hotel am y noson.

Roedd gêm gyntaf Llanberis yn erbyn Hoking. Fe sgoriodd Llanberis i ddechrau, fe sgoriodd Aaron Jones y cais a chafodd Owain Morris y gic dros y pyst.

Ar ôl ychydig mwy o chwarae fe sgoriodd Hoking a chael y bêl dros y pyst.

Jyst cyn hanner amser fe sgoriodd Rhys Morris i Lanberis a chafodd Owain y bêl dros y pyst.

Yn yr ail hanner fe sgoriodd Hoking eto a chael y bêl dros y pyst, a'r sgôr terfynol oedd Llanberis 14 Hoking 14.

Yn yr ail gêm roedd Llanberis yn erbyn Ystradgynlais. Fe sgoriodd Ystradgynlais dair gwaith yn yr hanner cyntaf ond fe sgoriodd Owain Morris gais i Lanberis a chael y bêl dros y pyst.

Y sgôr tgerfynol oedd Ystradgynlais 21, Llanberis 7.

Er fod Llanberis wedi methu ennill gêm roeddent wedi ennill pob gêm yn yr hen Wynedd.

DAFYDD PRITCHARD


**CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA**



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

**Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun**
**Ffôn: (01286) 871833**

**TRIN GWALLT YN EICH CARTREF**
**MERCHED ★ DYNION ★ PLANT**

***Lynette Evans***
**GARNET, LLANRUG**
**Ffôn: 673981/675807**

**CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL**
**CYSTADLEUAETH PÊL-DROED**
**Blwyddyn 6 -13**
**Ysgol Brynrefail, nos Fercher, 26 Mehefin**
Rhoddir gwybodaeth ychwanegol trwy'r ysgol nes ymlaen
**Uwchafbwynt y Noson**
**GÊM FAWR PÊL-DROED**
**rhwng yr ATHRAWON a'r RHIENI**
**Lluniaeth a Stondinau**
DOWCH YN LLU I GEFNOGI

# Claddu Miss Ifans

## gan Y GWALCH

Clywais fy nhad yn ei dweud mor aml nes iddi fynd yn stori ar gyfar pob tymor; ac yn sicr o fod yn wir, gan nad oedd yr hanfodion byth yn amrywio, a fedra i ddim gwneud dim mwy na'u rhoi nhw i lawr mewn trefn.

Roedd fy nhad yn bymtheg oed pan fu Miss Ifans farw. Roedd hi wedi bod yn athrawes yn yr ysgol fach, yn gyrru to ar ôl to o blant allan i'r byd, hefo'r cymwystera gora y galla hi roi iddyn nhw — wedi ei llesteirio fel yr oedd hi hefo prinder adnoddau ac adladd y 'Welsh Not'. A ddarfu neb erioed feddwl gofyn â oedd hi'n cael tâl. Ond yr oedd y ffaith yn wybyddus i bawb na fu hi erioed ar gyfyl coleg. Y gred gyffredinol oedd ei bod hi — pan oedd hi'n ddisgybl ei hun — wedi mynd allan i'r llawr i wynebu Standard Ffeif rhyw fora, pan oedd yr athrawes arferol yn absennol, ac yno yr arhosodd hi am dros hanner canrif, er gwaetha pob anhawster.

Roedd hi ar gael, yn ystod ac ar ôl oria, i ddatrus problema cymdeithasol a rhifyddol, i ganfod cyhydedd prif ddinasoedd y byd, i dynnu dannadd sugno, a thrin y rhai nad oeddent wedi eu llawn ddisgyblu i reoli gweithgaredda eu hymysgaroedd. Roedd hi wedi trefnu'r tablau ariannol i fynd ar 'Wŷr Harlech', ac yr oedd hi'n gallu delio hefo chwareuwyr triwant ac ysbeilwyr perllannau yr un fath â swyddog o'r Gwarchodlu.

Pan ddaeth hi'n amsar iddi ymddeol o'r diwadd, doedd yna ddim seremonia mawlganu. Gwnaed cronfa i brynu rhyw declyn anfuddiol, ac aeth dirprwyaeth â hwnnw i dre ar y glannau lle'r oedd hi erbyn hynny wedi ymfudo yn dawal i gadw tŷ i'w chwaer hŷn, a bu farw yn fuan ar ôl hynny.

Yr hen sgŵl — a oedd yr adag honno ar fin ymddeol ei hun — ddaeth â'r newydd am farw Miss Ifans, a'r modd yr oedd hi wedi dymuno cael ei chladdu yn y fynwant. Mi aeth i weld fy nhaid i'r hen ffarm i drafod trefniadau, gan mai nhw fel rheol fyddai'n rhoi ceffyla i dynnu'r hers. Roedd corff Miss Ifans ddyliwn, yn dŵad i fyny'r lein ar y trên gwds, ac mi gafodd fy nhad ordors i fynd i'r stesion hefo'r wagan geffyl i'w gyrchu o.

Diwrnod brochus tua diwedd Chwefror oedd hi, medda fo, a phentyrra mawr o gymyla ar ben yr Wyddfa, a'u penna nhw weithia yn gwynnu mewn sglent o haul — daroganwyr eira.

Mi ddaru'r portar ei helpu o i gael yr arch ar y wagan, ac yr oedd y sgŵl wedi rhoi'r Ddraig Goch fawr honno iddo fo yn ei phlygiad; honno fydda yn cael ei chadw yn y cwpwrdd llyfra yn Standard Thri, ac yn cael ei chwhwfan ar Ŵyl Ddewi, ac achlysuron eraill, pan oeddan nhw yn ddigon hyf i ddangos nad oeddan nhw yn hollol fodlon i fod yn ddeiliaid i Victoria. Mi fasa'n beth gweddus meddai'r sgŵl, i hulio arch Miss Ifans, achos yr oedd hi wedi bod yn bybyr Gymreig i'r diwadd. (Rhaid cofio bod dylanwad athrawol yn parhau ar bobl yr adeg honno, ymhell i oedolaeth.)

Wrth i fy nhad ddod yn ei ôl, roedd y bobl ar y lôn yn sefyll yn stond ac yn dweud dim, ac mi ddarfu gwas y Glasgoed, oedd yn troi tyndir ar ochr y lôn, adael ei wedd yn y gwys a dod i'r dalar a thynnu am ei ben.

Wedyn, rhoddwyd Miss Ifans i orffwys ar ddwy fainc yn yr ysgol. Honno oedd y ffordd ora i arbad tramgwyddo ddyliwn i, achos yr oedd yna gymaint wedi cynnig iddi gael dod i'r gegin ffrynt. Ac mi symudwyd Standard Thri yn un darn i'r Rŵm Fawr, i ddyblu ar y desgia meincia hefo Ffôr a Ffeif, ac yr oedd amryw un a gai ei anfon i nôl llyfra i'r cwpwrdd, yn cael edrych arno fel arwr a pheth cenfigen.

Beth bynnag, trefnwyd i gladdu Miss Ifans ar ddydd Gŵyl Ddewi, a chafwyd gwasanaeth byr yn yr ysgol cyn cychwyn am y fynwant. Fel yr oedd hi'n digwydd bod, gan fy nhad oedd gofal y ceffyla, ac mi faswn i'n meddwl fod ganddo fo rhyw 'bolas fach anhwylus oedd ddim wedi arfar cael ei bachu yr ochr i mewn i'r polyn. Ond o'r diwadd i ffwrdd â nhw yn cael eu dilyn gan haid o blant ac oedolion; pawb a'i fryd ar ddiwrnod gŵyl, fel rhes o ffoaduriaid yn manteisio ar gysgod pob cawnan rhag y gwynt milain dwyreiniol hwnnw oedd yn rhoi osgo ar y plu duon ar ffrwyni'r meirch, ac yn dod ag ambell i bluen eria i'w ganlyn. Ond er gwaetha hynny, roedd yr hen sgŵl wedi mynnu cerddad y tu ôl i'r hers, hefo Wil Tomos cyfaill fy nhad, a dau o hogiau atebol eraill a oedd wedi eu penodi i gludo. Roedd gan



*Y Gwalch gyda'i asiant llenyddol o Lundain.*

bob un bâr o fenig duon, newydd sbon yn eu pocedi. Roeddan nhw yn arbad rheiny ar gyfar y rhodfa olaf at lan y bedd. Roedd o'n arferiad yr adag honno i brynu pâr o fenig cid i hogia codi corff. Yn achos Miss Ifans, roedd yr hen sgŵl ei hun wedi mynd i'r Afr Aur yn y dre yn bwrpasol i ofalu fod y ddefod yn cael ei pharchu.

Ond erbyn iddyn nhw gyrraedd y Caera Mawr, dyma nhw'n sylwi fod y plu yn gogwyddo'r ffordd arall, ac ymhen dim roedd yna storm o eira wedi dod ar eu gwartha nhw o Fôr Matholwch.

Doedd yna ddim amdani ond tywys y ceffyla i gysgod y gwrych a chael sanhedrin, a phenderfynwyd trio mynd dros ben y rhai oedd yn dilyn, i droi yn eu hôlau rhag i'r plant fygu, ac erbyn hynny doedd yna fawr o waith perswadio arnyn nhw. Ond arhosodd un neu ddau o'r dynion, ac yn y modd yma yr aethant i lawr Allt y Caera, hefo clocsan o dan yr hers, a dwy siacad liain wedi eu lapio am benna'r ceffyla.

Erbyn iddyn nhw gyrraedd pant Rhyd Fawr — yn edrych erbyn hyn 'run fach â gweddillion byddin Napoleon yn dod adra o Rwsia — roedd hi'n amlwg i bob lembo na fedran nhw fynd gam ymhellach, a ffodus fuon nhw fod y beudai wrth law, ac i'r fan honno yr aethant i gysgod y tŷ gwair, a doedd yna neb ddim balchach na'r hen sgŵl.

Beth wnaeth i'r pedwar hogyn wedyn benderfynu cludo Miss Ifans y chwartar milltir a oedd yn weddill, dyn â ŵyr; mwympwy mae'n siŵr ran fwya, fel mae llancia yr oed yna. A dyma nhw yn chwipio crafeti am eu cega a chychwyn, ac er nad oedd yr hen garpan fawr o fwndal, roeddan nhw yn gorfod ei rhoi hi i lawr reit aml yng nghysgod y gwrychoedd i gael gwynt ac unwaith, i godi eu hysbrydoedd nhw, dyma Wil Tomos yn taro 'Gwŷr Harlech': *'Twenty pence ar one and eightpence. Thirty pence are two and sixpence'.*

Erbyn iddynt gyrraedd yr eglwys o'r diwadd, roeddan nhw fel dynion eira. Roedd y person a'r clochydd, un o boptu'r fedyddfaen, yn sgrythu fel dynewid — wedi mynd yn soldiwrs. Serch hynny, ddarfu iddyn nhw ddim torri congla. Mi aethon drwy'r gwasanaeth claddu o bant i bentan fel tasa nhw yn yr eglwys gadeiriol a honno dan ei sang.

Roedd bedd Miss Ifans yn y canol, tu draw i'r ywan, a doedd dim disgwyl i'r person fynd allan i ddarllan uwch ei ben o yn y fath luwch, roedd o'n llawn o eira p'run bynnag. Yn hytrach, cythrodd yr hogia rawia o gwt yr elor a'i ailagor. Wedyn, aethant yn eu hôlau i nôl Miss Ifans, ac mi ddarfu nhw gymryd eu hamsar i roi eu menig ar gyfar y rhodfa olaf, a ddarfu nhw ddim rhuthro hynny chwaith, fydda fy nhad bob amsar yn ei bwysleisio, a dyma nhw yn ei gollwng hi i lawr yn ara deg, a chymryd amsar wedyn i ddirwyn y rhaffa, fel pe tasa nhw yn gyndyn o dorri'r mymryn bach hwnnw o gysylltiad a oedd rhyngddyn nhw â'r hen Fiss am byth. Yna, gadawsant i'r eira wneud gwaith y clochydd.

Ond wrth ddod yn ôl at yr eglwys, aethant i gysgodi am funud o dan yr ywan, a dechra amneidio ar eu gilydd a chwerthin, ac yr oedd pawb yn gweld yr hwyl ond Wil Tomos.

*Parhad cyferbyn*

**Emyr Jones**
PLYMAR
A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
(01286) 673513

J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR
LLANRUG
Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael
Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

Siop Trin Gwallt
SANDRA
Stryd Fawr
DEINIOLEN
Ffôn: 872112
- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

# WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

**Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556**

**Enillwyr Clwb 300** am fis Ebrill – £40: Mrs Bethan Thomas, Ty'n Llan; £25: Mr Owain Orwig, Preswylfa; £10: Mr Bryn Griffith, Gorffwysfa.

**Priodasau:** Llongyfarchiadau i bedwar pâr ifanc ar eu priodasau yn ddiweddar:

– i Alan a Jackie, 9 Tŷ Hen;
– i Jane a Shaun Wood, Ysgoldy Groeslon;
– i Bronwen ac Eifion Williams, Bod Idris; ac
– i Iola Llywelyn a Rhys Jones, Tegannedd, a briodwyd yng nghapel Cefnywaun, Deiniolen.

Dymuniadau gorau ichi a phob hapusrwydd yn eich bywyd priodasol.

**Dathlu Pen-blwydd Priodas:** Llongyfarchiadau i John a Sulwen Lewis, 12 Bryn Golau, ar ddathlu eu priodas arian yn ddiweddar.

**Dathlu Pen-blwydd:** Llongyfarchwn Alaw Meleri, Rhandir Mwyn, ar gyrraedd ei 21 mlwydd oed yn ystod y mis.

**Yn yr Ysbyty:** Anfonwn ein cofion cynhesaf a'n dymunidau gorau am wellhad llwyr a buan i Mrs Gwen Jones, Bod Arthur, wedi iddi ddisgyn yn ei chartref; ac i Mrs Maureen Hughes, Bryn Peris, sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl ar hyn o bryd.

Croeso adref o'r ysbyty gan obeithio eu bod yn gwella i Mr R. Roberts, 9 Bryn Golau; Mr Overy, Pant Waun; ac i Mrs Elaine Parry, Bro Waun. Mae'n braf gweld Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau yn gallu mynd o gwmpas unwaith eto wedi iddo gael triniaeth lwyddiannus i'w lygaid yn yr ysbyty yn Llandudno.


**Cydymdeimlo:** Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Eurwen Jones, Mrs Megan Lloyd-Jones a Tecwyn Evans, merched a mab y ddiweddar Mrs Lily Evans, Tegfan, yn eu profedigaeth o golli eu mam.

**Diolch:** Dymuna Mrs Eirwen Jones, Penygroes; Mrs Megan Lloyd-Jones, Bangor, a Mr Tecwyn Evans, Caernarfon, ddiolch yn ddiffuant iawn am yr holl garedigrwydd ac amlygiad o gydymdeimlad a dderbyniwyd gan gymdogion a chyfeillion yn ystod eu profedigaeth o golli eu mam, Mrs Lily Evans, Tegfan.

Diolch hefyd am yr holl lythyrau, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniwyd. Mawr hefyd yw eu dyled i'r Parchg Trefor Jones, Caernarfon, a'r Parchg John Gwilym Jones, Bangor, am eu gwasanaeth yng nghapel Croesywaun ac ym mynwent Betws Garmon. Diolch i Mrs Catherine Jones am ei gwasanaeth wrth yr organ.

Mae cyfeillion Ysgol Waunfawr wedi cael mis prysur iawn. Nos Wener, 10 Mai, cynhaliwyd Noson Ffasiwn ac roedd neuadd yr ysgol yn orlawn gyda phlant yr ysgol yn 'models' am y noson. Diolchir i noddwyr y noson, Bow Jangles, am eu help ac i ferched y gegin am y baned.

Nos Wener, 17 Mai, cychwynnodd 17 o gerbydau o faes parcio'r Ganolfan ar ein Helfa Drysor flynyddol ac fe orffennodd, gyda lwc, 17 o gerbydau yn y Snowdonia Parc, a'r enillwyr oedd Terry a Lorna Parry (gyda llawer o gymorth gan Meurig a Tomos!). Gobeithio y bydd Beth a Sylvia; Ieuan, Gavin ac Amy, wedi darllen yr map erbyn y flwyddyn nesaf. Roedd cystadleuaeth i'r plant hefyd gyda Zoe yn ennill i'r rhai rhwng 4 ac 8; Alwyn Parry yn ennill oedran 9-12.



*Sied Ponc Isaf Braich, Chwarel Dinorwig.*



*Chwarelwyr o'r Waunfawr y tu mewn i'r sied.*

Anfonwyd y ddau lun uchod at yr *Ecogan* Mrs Nancy Carter o Southampton. Dyma ddywed Mrs Carter yn ei llythyr: *Yr wyf wedi fy magu yn Waunfawr ac erbyn hyn yn byw yma yn Southampton ers bron hanner canrif bellach. Chwarelwr oedd fy nhad wedi gweithio yn chwarel Dinorwig ar hyd ei oes, ac yn 'Ponc Isaf Braich' y blynyddoedd diwethaf cyn ymddeol. Trwy garedigrwydd cyfeillion Waunfawr, byddaf yn derbyn Eco'r Wyddfa bob mis, a chael pleser mawr o'i ddarllen. Criw o'r Waunfawr yw'r rhai sydd yn y llun i gyd ac mae'n drist meddwl eu bod i gyd wedi ein gadael erbyn hyn, ond efallai y daw'r lluniau ag atgofion i rai o ddarllenwyr yr Eco. Dyma eu henwau, o'r chwith i'r dde: Idris Owen; E. Gwyrfai Jones; Tom Roberts; Hugh Bach, Tŷ r'ardd a William H. Hughes (Tada). Drwg gennyf nad wyf yn cofio enw llawn Hugh, ond fel yna y byddai Tada yn cyfeirio ato.*

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a diolch yn arbennig i Tecwyn Evans am baratoi'r helfa oedd mor hawdd i rai ond yn drech nag eraill!

**Plaid Cymru Waunfawr a Chaeathro:** Etholwyd y swyddogion canlynol mewn cyfarfod o'r gangen – Cadeirydd: Duncan Brown; Ysgrifennydd: Gill Brown; Ysgrifennydd Aelodaeth: Jean Jones; Trysorydd: John Gwynedd.

Bu noson gymdeithas i'r pentrefwyr ym Mryn Eirian, nos Sadwrn, Mai 18, pryd y cynhaliwyd rasus ceffylau ar fideo. Arweinydd y noson oedd y Cyng. Eurig Wyn. Cyfrennir cyfran o elw'r noson i Antur Waunfawr. Cynhelir Helfa Drysor o gwmpas llwybrau'r pentref nos Sadwrn, Mehefin 15. Darperir lluniaeth ar ddiwedd y noson.

**Merched y Wawr:** Ym mis Mawrth cafwyd sgwrs a sleidiau hynod ddiddorol gan Haf Meredydd yn sôn am ei siwrne ddiweddar yn Nwyrain Affrica. Gwelwyd sleidiau o anifeiliaid rhyfeddol a phrin. Diolchwyd iddi gan Mrs Mary V. Jones.

Yna, ym mis Ebrill, daeth Mr Duncan Brown i sôn am y mudiad amgylcheddol Cwlwm. Soniodd am bwysigrwydd yr amgylchedd a'r cyfrifoldeb sydd ar bawn i'w warchod. A hithau yn ddeng mlynedd ers y digwyddiad erchyll yn Chernobyl mae pawb yn rhy ymwybodol o'r effaith ar Gymru. Felly, daeth nifer o fudiadau, boed yn rhai amgylcheddol neu beidio, at ei gilydd i ffurfio Cwlwm ac i hybu ymwybyddaieth amgylcheddol o safbwynt Cymreig. Mae Merched y Wawr yn un ohonynt. Diolchwyd i Duncan gan Mrs Mary V. Jones.

Bu cyfarfod ar nos Iau, Mai 23, pan fu'r Cyng. Eurig Wyn yn sôn am ei waith fel cynghorydd lleol ac Ewropeaidd.

I ddiweddu'r tymor cynhelir gwibdaith ddirgel nos Iau, 27 Mehefin.

*Parhad o'r Gwalch*

'Roeddan nhw wedi ei weld o'n dŵad yn yr Afr Aur mae'n rhaid,' medda fo. 'Wedi gwerthu hen stod iddo fo o ben draw'r silffoedd.'

Roeddan nhw wedi rhwbio'r eira o'u hwynebau mor aml, ac yr oedd y menig duon wedi colli eu lliw.

Roedd yn haws o lawar iddyn nhw fynd yn eu hôlau i'r Rhyd Fawr heb Miss Ifans, a phenderfynwyd iddynt aros yno dros nos hefo'r gweision yn y llofft uwchben y gwarthag. Ond cafwyd lle i'r hen sgŵl yn y tŷ, a doedd hynny 'chwaith yn plesio fawr ar Wil Tomos oedd wedi cael blas ei gansan o mor aml. Meddai wrth fy nhad: 'Mi fasat titha wedi cael mynd hefyd tasa ti wedi bod yn y colej.'

Chawson nhw fawr o noson yn ôl yr hanas yn y gwely chwain hwnnw yn dyheu am y bora, ond pan ddaeth hwnnw, roedd yna fendith i'w ganlyn. Roedd yr eira wedi peidio er fod y gwynt milain hwnnw yn dal i'w chwipio fel mwg oddi ar griba'r lluwchfeydd. Ond bachu wnaethon nhw a chychwyn am adra hefo rhaffa a rhawia, ond mi aeth y siwrna yn drech na'r hen sgŵl yn y diwadd. Roedd o yn dechra corffi, a gwedd arno fo ddigon â gneud iddynt nhw feddwl y basa angan yr hers wedyn cyn diwadd yr wythnos. Doedd yna ddim amdani ond ei lapio fo yn ei Ddraig Goch a'i sodro fo ynddi hi allan o'r gwynt, ac erbyn canol y pnawn roeddan nhw wedi ei ddychwelyd o i'w wraig bryderus, ond doedd o'n gwerthfawrogi dim ar y gwymynas ddyliwn i. Mi drodd arnyn nhw a'u byrddio, ac arllwys llysnafedd arnyn nhw am ei gamdrin o a'i ddowcio fo yn yr hers.

Ond Wil Tomos ddarfu chwalu tyndra yr holl amgylchiad, am na fedrai anghofio'r sarhad o gael pardduo ei wynab ac aniolchgarwch y sgŵl. Pan oeddan nhw yn gwthio'r hers yn ei hôl i'r cwt, dyma fo'n deud: 'Y fo ydi'r cynta i mi glywad yn cwyno ar ôl cael ei gario yn hon.'


GORSAF BETROL
Esso BERAN
DEINIOLEN
Ffôn: (01286) 871521
Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion
TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

# CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

**Llongyfarchiadau** i Mr Llew Hughes, Hyfrydle, a Mrs E. Williams, Pantafon, y ddau wedi dathlu eu pen-blwydd yn 89 oed yn ddiweddar. Llongyfarchwn hefyd Carys Williams, Bryn, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 21 oed.

Llongyfarchiadau hefyd i Hilda a Les Orritt, Morannedd ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach i Judith a Nigel yn Llanberis.

**Diolch:** Dymunwn ddiolch yn ddiffuant i Mrs Mair Hughes a Mrs Rita Williams, am hyfforddi'r plant ar gyfer eisteddfodau'r Urdd ac hefyd eu paratoi ar gyfer gweithgareddau eraill yr Urdd. Diolch i Mrs Sioned Jones am ei gwaith ac hefyd Jennifer Roberts a Gwenifer Roberts am ofalu am y plant. Diolch yn fawr.

**Diolch:** Dymuna Sioned Jones, Isfryn, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

**Newyddion o'r Ysgol:** Carem ddiolch o galon i bawb yn y pentref a gyfrannodd i Apêl Cronfa Dunblaen. Anfonwyd £150 i'r ysgol a derbyniwyd llythyr hyfryd o werthfawrogiad ganddynt. Mynegwyd yn y llythyr eu bod 'yn cydweithio ac yn cynnal eu gilydd i geisio adfer hapusrwydd yn y gymuned glôs wedi'r drychineb erchyll a ddaeth i'w rhan.'

Mae'n bleser llongyfarch Mrs Hilda Orritt, y gogyddes, ar ddod yn Nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach i Nigel a Judith. Croeso mawr i Daniel a phob bendith ar y teulu bach.

Daeth yn amser i ni ffarwelio â Miss Llinos Fretwell. Bu hi yma ar Gynllun Hyfforddiant yr Ifanc ac fe garem ddiolch yn fawr iddi am ei gwaith a'i hymroddiad gyda phlant y Babanod yn ystod y cyfnod hwn. Dymunwn yn gorau iddi yn y dyfodol.

Yn ystod y mis diwethaf du dau arall yma ar brofiad gwaith. Bu Mr Alex Cooper gyda'r plant ieuengaf ar Gynllun Nyrsio Prosiect 2000 a Mis Emma Jones o Ysgol Brynrefail yn y gegin fel rhan o'i chwrs Arlwyaeth.

Treuliodd Blwyddyn 5 a 6 fore yn Amgueddfa'r Chwarel yn y Gilfach Ddu ac yna aethant ymlaen i Ysbyty'r Chwarel cyn cerdded y llwybrau natur.

Bu Karrah, Carys ac Annest yn brysur iawn fore Gŵyl Fai gyda'u stondin ym Mharc Padarn. Gwnaed £33 o elw gyda'r cacennau a'r gêm. Diolch i bawb a anfonodd roddion i'r ysgol.

Erbyn y daw y rhifyn hwn o'r wasg fe fydd Keith Williams wedi gorffen ei driniaeth yn yr ysbyty yn Lerpwl. Deallwn ei fod yn edrych ymlaen yn arw i gael dychwelyd atom i'r ysgol. Rydym ninnau yn barod iawn i gael ei groesawu ac fe fyddwn yn falch iawn o'i weld yn ôl.

Bu tad a mab yn lwcus iawn yng Nghlwb yr Ysgol ym mis Ebrill. Yr enillwyr oedd Gwyndaf Hughes a Rhodri ap Llwyd, Glasgoed, Llanrug.

**Yr Urdd:** Ddiwedd mis Ebrill aeth Arwyn, Karl a Kevin i wersyll yr Urdd, Glan-llyn. Cawsant benwythnos gampus o rwyfo, canwio, nofio, bowlio-deg, gyrru go-cart, hoci, a phel-droed — heb sôn am dwmpath dawns tan hanner nos. Doedden nhw fawr gwaeth ond ni ellid dweud hynny am Mrs Mair Hughes!

Cynhaliwyd Mabolgampau'r Urdd, Cylch Arfon, nos Lun, Mai 20, ar gae Ysgol Syr Hugh Owen yng Nghaernarfon. Daeth Mathew Roberts yn ail yng nghystadleuaeth Taflu Pêl i fechgyn dan 10 oed. Yn yr un gystadleuaeth i enethod dan 10 oed, daeth Sarah Perrin yn drydydd. Da iawn chi!

**Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon:** Cynhelir yr ŵyl hon ym mis Tachwedd eleni. Rhoddwyd targed ariannol i bob pentref. Cyplyswyd pentref Cwm-y-glo gyda Brynrefail gyda'r darged o £250. Cyfarfu nifer fechan o'r ddau bentref eisoes a phenderfynwyd ein bod yn casglu o amgylch y ddau bentref. Y prif gasglwr yma fydd Mrs Sylvia Williams, Bwlch. Os dymuna unrhyw un gyfrannu, bydd hi'n barod iawn i dderbyn eich rhoddion.

Cynhelir Tombola yn yr Ysgol Gymuned, nos Fawrth, Mehefin 26, am 7 o'r gloch. Rydym eisoes wedi cael addewidion am rai o wobrau'r raffl ond fe fyddem yn dra diolchgar am wobrau ar gyfer y Tombola ei hun. Bydd Mrs Hilda Orritt a Mrs Iris Rowlands yn falch iawn o'u derbyn gennych — neu mae croeso i chwi ddod a hwy i'r Ysgol.

# BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

**Llongyfarchiadau** i Alwyn a Shirley Roberts, 1 Minffordd, ar ddod yn daid a nain. Ganwyd merch fach i'w mab, Neil, a'i briod, Cheryl, sy'n byw yn Llanberis. Rhaid estyn llongyfarchiadau hefyd i Mr a Mrs Bobbie Roberts, Penbryn, ar ddod yn hen daid a nain.

**Cymdeithas y Chwiorydd:** Cynhaliwyd ail gyfarfod y tymor yn y Festri, nos Iau, 2 Mai. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Ifanwy Jones ac estynnodd groeso i'r aelodau a'u ffrindiau a ddaeth ynghyd i'r cyfarfod. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Lowri P. R. Williams, Godre'r Coed, gyda detholion o'r Ysgrythur am lawenydd a phrydferthwch tymhorol a gofal y Creawdwr. Y gŵr gwadd am y noson oedd Mr T. Gwynn Jones, Porthaethwy, a thrwy gyflwyno wyth o'i hoff ddatganiadau, cerddorol a llenyddol, tywysodd ei gynulleidfa i bob cwr o'r byd i gyfarfod ag amrywiol gymeriadau. Diolchwyd iddo am noson ddiddorol gan Miss Alice Williams. Paratowyd y baned gan mrs Verna Jones, Miss Alice Williams a Mrs Jennie Hughes. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 13eg yng nghwmni Mr Meirion Hughes, Caernarfon.

**Darlieth:** Yr arlunydd a'r cerflunydd adnabyddus John Meirion Morris, Griolen, oedd y siaradwr yng nhyfarfod Dyneiddwyr Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Llyfrgell Caernarfon. Soniodd am y ffordd y syniai ef am fywyd, am ei brofiad fel artist a'i ddiddordeb yng nghelfyddyd y Celtiaid a chenhedloedd y Trydydd Byd. Wedi anerchiad diddorol cafwyd trafodaeth frwd a buddiol.

**Cymanfa Dosbarth Padarn:** Roedd y Sul, Mai 5ed, a'i dywydd hynod o braf yn ei gwneud yn ddelfrydol i aelodau eglwysi'r Dosbarth i gyrchu tua Nant Peris i gapel Rehoboth i gyfarfodydd y Gymanfa Flynyddol. Bu'r canlynol o Ygol Sul Brynrefail M.C. yn llwyddiannus ym maes yr Arholiad Llafar: Dylan Wyn Davies, Caryl ac Awen Jones, Amy lambert, Rhian George, Ellen Williams, Mrs Jennie A. Roberts, Mrs Lowri P. R. Williams, a Mr Richard Wyn Evans.

**Eglwys M.C. Brynrefail:** Bydd trefn yr oedfaon fel ganlyn yn ystod Suliau mis Mehefin:

2: Mr Islwyn Hughes, Llangoed (10)
9: Parch R. Gwilym Hughes, Caernarfon (10)
16: Mr William Ll. Davies, Bangor (5.30)
23: Parch Emrys Thomas, Caernarfon (2)
30: Cyfarfodydd Cymdeithas y Beiblau yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun am 2 a 6 o'r gloch.

**Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon:** Nos Fawrth, Mai 21ain, cyfarfu cynrychiolaeth o'r pentrefwyr gyda chynrychiolaeth o bentrefwyr Cwm-y-glo yn yr Ysgol Gymunedol yno i drefnu gweithgareddau ar gyfer codi arian at yr Ŵyl Gerdd Dant a gynhelir yng Nghaernarfon ym mis Tachwedd eleni. Gosodwyd nod o £250 i bentrefi Brynrefail a Chwm-y-glo ar y cŷd. Cyhoeddir y trefniadau yn y dyfodol agos ac apelir am gefnogaeth i'r gweithgareddau.

Mae'n ddiddorol cofio am ymgyrch arall, rai blynyddoedd yn ôl i godi arian at Eisteddfod Caernarfon. Dyma rai o ferched Cwm-y-glo, gyda stondinau ym Mryn Brâs, yn ystod yr ymgyrch honno.



**Cofion:** Anfonwn ein cofion at Mrs Gwyneth Evans, Ty'n Buarth, sydd wedi treulio cyfnod o archwiliad yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella.

**Sefydliad y Merched:** Nos Lun, Mai 20fed, cyfarfu aelodau'r gangen yn Llanberis yn Siop Crefftau Cae Coth. Treuliwyd y noson yn trafod yr argymhellion ar gyfer y cyfarfod blynyddol a gynhelir yng Nghaerdydd. Trefnwyd lluniaeth ym mwyty'r siop gan y llywydd, Mrs Pat Jones, a diolchwyd am y paratoadau gan Miss Alice Williams.

Estynnwyd gwahoddiad i aelodau'r gangen i ymuno â changen Y Felinheli, nos Iau, Mehefin 6ed, pryd y ceir sgwrs ac arddangosfa o hen bethau.


**Royal Victoria Hotel**

**LLANBERIS**

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau, Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

**Ffôn: (01286) 870253**


**LLEUFER O. ac N. PRITCHARD**

**CANOLFAN CARPEDI**

**WAUNFAWR**

**Ffôn/Ffacs: 650291**

Ar agor 9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau Sul a Mercher



Dewis eang o Welyau a *3P/Suites*.



Llenni *Venetian* a Llenni *Roler*.

5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc — allwch chi fforddio prynu o batrymau?

**GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK**

# PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

**Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263**

**Ysgol Sul Brosra:** Llongyferchir yr holl aelodau a dderbyniodd dystysgriau a bathodynnau am gasglu'n ddiwyd drwy'r flwyddyn at y Genhadaeth Dramor, yng Nghymanfa'r Methodistiaid a gynhaliwyd yng nghapel Hirael, Bangor. Diolchir i Mrs Elizabeth Jones am annog y plant.

**Trip yr Ysgolion Sul:** Bydd trip yr Ysgolion Sul yn mynd i Gaer eleni. Bydd cyfle i bawb gael amser i siopa, ymweld â'r sŵ, os dymunir, ac yna awr fach yn y ffair yn y Rhyl cyn cychwyn yn ôl tua 7.30-8.00 p.m., ddydd Sadwrn, 7 Gorffennaf. Y pris i oedolion fydd £5, ac i blant nad ydynt yn aelodau o'r Ysgol Sul £2.50. Enwau ac arian i Mrs Elizabeth Jones, ffôn: 872421; neu Mrs Ann Paterson, ffôn: 872405, os gwelwch yn dda.

**Y Gymdeithas Feiblaidd:** Yn Eglwys Santes Helen cynhelir gwasanaeth gan yr Ysgolion Sul, bnawn Sul, 30 Mehefin, am 2 o'r gloch, a Chymanfa Ganu, o dan arweiniad Mrs Eurgain Eames, gyda'r nos. Ceir eitemau gan gôr Mrs Eames yng nghymanfa'r nos. Croeso cynnes i bawb. Gwneir casgliad yn y cyfarfodydd tuag at y Gymdeithas Feiblaidd.

**Pwyllgor yr Ŵyl Gerdd Dant:** Targed y pentref yw £250. Byddai'r pwyllgor yn dra diolchgar o unrhyw gyfraniad gan garedigion. Bydd aelodau'r pwyllgor yn fodlon casglu cyfraniadau ddiwedd mis Mehefin. Diolchir ichwi am eich caredigrwydd a'ch haelioni.

**Pwyllgor Rheoli y Neuadd Gymuned:** Tynnwyd Clwb Cant mis Ebrill a'r enillwyr oedd 1: Dafydd Owen, Brynhyfryd; 2: Ann Ifans, Sycharth; 3: Pat Jones, 1 Tai Arthur. Croeso cynnes i'r pymtheg aelod newydd i'r Clwb Cant a diolch ichwi am ymuno — mae croeso cynnes i nifer fawr arall hefyd os dymunir! Bwriedir trefnu taith gerdded noddedig, yng ngofal Leslie Larsen, fore Sadwrn, 14 Medi, am 10 a.m. Gobeithio y bydd mor lwyddiannus â'r un y llynedd.

**Gwellhad:** Da deall fod Mari Deiniol, 12 Bryn Eglwys, wedi llwyr wella wedi'i thriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Anfonir cofion annwyl atoch chwi oll sy'n sâl yn y pentref. Brysiwch wella.

**Pob Lwc:** Pob dymuniad da i'r rhai sy'n sefyll arholidau TGAU, Lefel Uwch a'r amrywiol golegau.

**Diolch:** Dymuna Mrs Eileen Thomas, Bron y Gaer, ddiolch am y cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau wedi'i thriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Diolch o galon.

**Urdd Bentref:** Llongyfarchiadau brwd i'r aelodau fu'n cystadlu ym Mabolgampau'r Cylch, nos Lun, Mai 20. Daeth Dewi Jones yn drydydd yn y naid hir ac am redeg, dan 12 a 15 oed. Cafodd Erin gyntaf am naid uchel, a Nia Porter yn drydydd. Daeth Dion yn gyntaf yn y naid hir ac ail am redeg. Ardderchog wir! Pob hwyl i'r rhai fydd yn cystadlu ym Mabolgampau'r Sir ar gaeau Ysgol Eifionydd ar 24 Mehefin. Diolch i'r rhai a ddaeth i gludo ac i gefnogi'r aelodau.

**Cydymdeimlo:** Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Carol Gotham a'r ferch fach, Victoria, Weirglodd Las ar farwolaeth sydyn David Gotham.

# CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

**Hanes y Cae Chwarae:** Roedd yna un ffaith anghywir yn yr adroddiad ar dudalen flaen rhifyn diwethaf o'r Eco. Rhodd gan Mrs Dorothy Flower, Bron Eifion, Cricieth, i'r pentref oedd y cae chwarae. Ar un adeg roedd teulu Greaves (perchnogion Chwarel Llechwedd, Blaenau Ffestiniog) yn berchen ar Glan Gwna a Bron Eifion.

**Croeso i'r Pentref:** Trigolion newydd Bryn Mair, Penrhos, yw Gwenno Bebb ac Eryl Jones a'u mab Gwion. Athrawes yn Ysgol Brynrefail yw Gwenno ac adeiladydd yw Eryl. Croeso i Gaeathro!

**Tynfa'r Pentref:** Yr enillwyr oedd — £40: Geoff Drake, Castell Mai (5); £25: Alun a Vera Roberts, 10 Erw Wen (64); £15: John ac Annwen Pritchard, Ty'n Gors Newydd; £5: Reg a Maureen Chambers-Jones, Hafod Wen (94). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Pwyllgor y Cae Chwarae:** Cynhelir cyfarfod nesaf y pwyllgor am 7.30 p.m. nos Fercher, 19 Mehefin, ar y cae chwarae.

**Gwasanaethau'r Capel:** Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod yr wythnosau nesaf:

MEHEFIN
2: Parchg Gwynfor Williams (2)
9: Mr Huw Jones (2)
16: Gweinidog Parchg W.R. Williams (10)
23: Parchg Gareth Malor (2)
30: Gweindog Parchg W.R.Williams (10)
GORFFENNAF
7: Mr Albert Jones (10)



**Ond does yna bobol ddyfeisgar i'w cael deudwch? Gŵr o'r fro wedi mynd at y teulu i Sir Fôn, a deall bod adar yn bygwth nythu yn y pot simdde. Cael brenwêf! Cael hyd i ffrâm weiren sy'n dal basged flodau — jyst y peth i'w osod ar y pot simdde i rwystro'r adar. Ond ni ddaeth i'w feddwl i osod y ffrâm â'i phen i lawr, a phan aeth yn ei ôl ymhen yr wythnos roedd nyth bach taclus yn gorwedd yn y fasged!**


GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
**CABS LLANRUG**
Ffôn: (01286)
**675951**
Prisiau Cystadleuol – Gwaith Contract – Pell ac Agos

**Aled Jones**
Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio
Y GORLAN
FFRWD CAE DDU
BONTNEWYDD
(01286) 830412

SIOP GREFFTAU
A CHAFFI ANTUR
WAUNFAWR
ANTUR WAUNFAWR
Basgedi Blodau Sych ★ Siwtni
Jams ★ Briwgig ★ Siampw
Clustogau ★ Ewyn Baddon
Olewon Aromatherapi
Teganau Meddal ★ *Mobiles* Pren
Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. — 4 p.m.
Ffôn: (01286) 650721

IEUAN
WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484
★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

# LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

**Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390**

**Undeb y Mamau:** Pnawn hynod o ddifyr gafwyd yn y cyfarfod misol a gynhaliwyd yn festri Eglwys Sant Padarn ar y seithfed o Fai. Mrs Dilys Phillips arweiniodd y gwasanaeth. Y gŵr gwadd oedd Mr Gwynfor Roberts, Moss Bank, ond bellach o Stryd Capel Coch. Cafwyd adroddiad manwl o'r amser a dreuliodd ar ei wyliau yn Awstralia. Yn dilyn cafwyd y cyfarfod busnes a chydymdeimlwyd â Miss Nancy Williams ar golli ei chwaer yn ddiweddar; Mrs Nellie Davies hithau wedi colli ei mham; ac â Mr Owain Rees Jones, yntau wedi colli ei fam. Croesawyd Mrs Muriel Morris yn ôl wedi gwaeledd diweddar ac anfonwyd ein dymuniadau am wellhad llwyr a buan i Mr a Mrs Dennesse Hughes, Ynys Wen, y dau ar hyn o bryd heb fod yn mwynhau iechyd rhy dda.

Bydd y trip blynyddol yn mynd i Benbedw eleni, ar yr unfed a'r ddeg o Fehefin.

Diolchwyd i Mr Roberts ac i'r gwestwragedd, sef Mrs Clara Roberts, Mrs Betty Humphreys a Mrs Dilys Phillips, gan Mrs Audrey Evans ac eiliwyd y diolch gan Mrs Muriel Morris. Mrs Jean Roberts oedd enillydd y raffl.

**Meddyg yn Ymddeol:** Bydd Dr O. P. Jones yn ymddeol ddiwedd mis Mehefin a hynny wedi un mlynedd ar hugain o wasanaeth i drigolion Llanberis a'r cylch. Bwriedir cynnal cyfarfod cyflwyno iddo ddiwedd y mis.

**Nofio:** Llongyfarchiadau i Ceri Jones, Garfield House, ar ei llwyddiant mewn cystadlaethau nofio yn ddiweddar. Ym Mhencampwriaeth Unigol Gogledd Cymru ym mis Ebrill enillodd wobr arian drwy ddod yn ail yn y ras pili-pala genethod ei hoedran. Bu'n cystadlu hefyd yng Ngala Bangor ym mis Mai, a dod yn bedwerydd yn y ras pili-pala a chweched yn y ras cefn.

**Yr Urdd:** Bu plant yr Adran yn cystadlu yn Chwaraeon Cylch Arfon yng Nghaernarfon nos Lun, Mai 20. Cafodd dau dîm o redwyr y drydedd wobr yn eu ras gyfnewid; roedd Amy, Michelle, Sioned a Ceri yn y tîm genethod dan 10 oed; a Rhys, Marcus, Aron Lloyd a Dafydd yn y tîm bechgyn dan 12 oed. Enillodd Ceri y ras rhedeg dan 10 oed i enethod a bydd yn cystadlu nesaf yn Chwaraeon Eryri ym Mhorthmadog.

**Ysgol Dolbadarn:** Llongyfarchiadau i'r tîm rygbi am ennill Tarian Clive James yng Nghaernarfon yn ddiweddar. Aeth plant blwyddyn 3 a 4 i Gaer Efrog ddydd Iau, Mai 9. Treuliwyd y prynhawn yn y ddinas gan ymweld â Chanolfan Yorvik, yr amgueddfa lle'r ailgrewyd pentref o oes y Llychlynwyr. Gwelwyd yno hefyd olion yr hen ddinas Lychlynaidd a ddarganfuwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma pan oedd canolfan siopa newydd yn cael ei hadeiladu yng nghanol dinas Efrog. Teithiwyd wedyn cyn belled â Whitby a threuliwyd y nos yno mewn gwesty yng ngolwg y môr. Treuliwyd y diwrnod canlynol ym mhentref Houlgate, gerllaw Efrog. Canolfan addysgiadol arbennig yw'r 'pentref' hwn sydd wedi ei greu er mwyn dangos amgylchiadau byw pobl yn oes y Llychlynwyr. Roedd y plant yn gweithio yn y pentref trwy'r dydd gan droi eu dwylo at grochenwaith, gwaith tŷ, garddio, malu blawd, ac amddiffyn y pentref rhag ymosodwyr. Daeth pawb adref yn ddiogel erbyn wyth o'r gloch nos Wener. Dyma'r eildro i blant o'r ysgol ymweld â Houlgate a Yorvik.



Enillodd Carys Morris, 2 Rallt Goch, Ceunant, dusw o flodau ar y rhaglen radio 'Bore Newydd' yn ddiweddar. Roedd wedi cael ei henwebu yn 'Fam y Dydd' gan ei thri mab, Rhys, Iwan ac Owain, gyda diolch arbennig gan yr hogia am redeg a rasio cymaint efo nhw i wahanol gêmau pêl-droed a rygbi !



*Eric Baylis, prif swyddog gorsaf dân Llanberis, yn cyflwyno gwobrau i blant ysgol Llanberis yn dilyn cystadleuaeth a drefnwyd adeg ymweliad plant lleiaf yr ysgol â'r orsaf dân ym mis Ebrill.*

**Diolch:** Dymuna Kevin a Wendy, 1 Dôl Elidir, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth Lowri Mai ar y 6ed o Ebrill.

**Marwolaeth:** Bu farw Mrs Eirlys Jones, Llecyn Clyd, 3 Blaen y Ddôl, fore Iau, 2 Mai, yn 74 mlwydd oed, wedi gwaeledd hir a ddioddefodd â dewrder ac urddas yn Ysbyty Gwynedd. Priod annwyl y diweddar John Rees ydoedd a mam gariadus Owen Rees a bu farw ddeng wythnos yn unig wedi marwolaeth ei gŵr, John.

Dechreuodd ei gyrfa gyda'i ddiweddar fam 'Anti Jane' fel gofalwraig Ysgol Dolbadarn; wedyn i'r Coleg Normal, Bangor, fel cynorthwy-ydd domestig; ac yna i westy Pen yr Wyddfa i weithio gyda chwmni Rheilffordd yr Wyddfa; ac yna fe briododd â John a magu teulu.

Bu'n aelod ffyddlon o gapel y Bedyddwyr a diwrnod trist iawn i Eirlys oedd pan gaewyd y Capel Bach. Ymaelododd wedyn ag Eglwys Sant Padarn, ac yno y cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol, ddydd Mawrth, 7 Mai. Estynnir ein cydymdeimlad diffuant i Owen Rees a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

**Diolch:** Dymuna teulu y ddiweddar Eirlys Jones, Llecyn Clyd, 3 Blaen y Ddôl, ddatgan eu diolchgarwch a'u gwerthfawrogiad diffuant i'r holl deulu, cyfeillion a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad, cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau, a'r blodau a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli mam annwyl iawn.

Diolch i feddygon, nyrsus a staff Canolfan Iechyd Llanberis; staff wardiau Glyder a Tryfan, Ysbyty Gwynedd; staff Canolfan Ambiwlans Caernarfon; nyrsus hospis yn y cartref ac Uned Macmillan Ysbyty Bryn Seiont, am eu caredigrwydd a'u gofal am Eirlys.

Diolchir hefyd i'r Rheithor, y Parchg Philip Hughes, Parchg Olaf Davies, a Mr Derek Jones, am bob cymorth a gawsant ar adeg mor drist; ac i Mr Myrddyn Pritchard a Mr Gwynfor Jones, am eu trefniadau trylwyr.

## DRAENOG

**Does yna ddim pwll nofio newydd yn stad Coed y Ddôl yn Llanberis, er gwaetha'r ffaith i mi glywed splash go fawr yno y dydd o'r blaen. Poeni bod yna 'dderyn diarth yn ymosod ar y pysgod yn y pwll yng ngwaelod yr ardd yr oedd y wraig, ac aeth yno i'w hel i ffwrdd. Ond siawns nad oedd ffordd haws o ddychryn deryn plastig na neidio dros eich pen i ganol y pwll! Os oedd hi mewn dŵr poeth, mae'n debyg nad oedd y dŵr ei hun ond clara — sori, claear.**


SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★

★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★

★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★

★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go Iawn ★

Y Bistro

LLANBERIS

Ffôn: 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am **Fwffe Enwog Nerys** (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion

**Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro Nos Wener olaf bob mis**

# Beth sy'n gwneud athro da?

Cwestiwn anodd, cwestiwn oesol. Cwestiwn â chymaint o atebion iddo ag sydd o bobl yn ei ofyn.

Darllenais yn yr *Eco* yn gynharach eleni am dair o ferched, oedd yn ei adnabod yn dda, yn haeru mai Mr Robert Morris oedd athro Saesneg gorau Gogledd Cymru. Dweud mawr. 'Sgwn i beth fyddai ymateb y gŵr tawel, swil hwnnw i'r fath deyrnged? 'Sgwn i beth oedd ymateb y cannoedd fu'n ddisgyblion iddo o ddarllen teyrnged y tair chwaer?

I mi roedd o yn athro a allai wneud gwyrthiau, a hynny mewn pwnc gorfodol ac nid mewn pwnc o ddewis y plentyn. Mae 'na wahaniaeth dybryd. Yn y cyfnod hwnnw mae'n amheus gen i a glywai plant ardal Nant Peris, Llanbêr, Cwm-y-glo, Brynrefail, Llanbabo, Dinorwig, Penisarwaun a Llanrug, air o Saesneg ar wahân i'r hyn a glywent yn yr ysgol ac ar ambell i drip i'r pictiwrs. Roedd arian yn brin — yn rhy brin yn y rhan fwyaf o'r cartrefi — i allu prynu llawer o lyfrau. Llyfrgell fach, fach oedd i'r ysgol ac, o'r hyn a gofiaf, llyfrau ac iddynt ddim apêl i blant yn eu harddegau oedd ar y silffoedd. Dim ond disgyblion y chweched dosbarth a gai fynediad iddi p'run bynnag. Yng nghornel pob stafell arall roedd cwpwrdd bach, llwydaidd na welais neb erioed yn benthyca llyfr ohonynt. Yr unig lyfrau oedd gan y rhan fwyaf ohonom fyddai llyfrau gosod gogyfer â'r arholiadau. Eto, anaml y byddai neb yn methu arholiad Saesneg yn Ysgol Brynrefail. Dim yn unig hynny ond caent *credit* neu *distinction*.

Sut roedd o yn llwyddo? Beth oedd ei gyfrinach? Meistrolaeth lwyr ar ei bwnc. Er iddo fod yn dysgu am yr holl flynyddoedd cadwodd yn ffres ac ni phwysodd ar ei rwyfau. Ni chollodd ddiddordeb yn ei bwnc. Pob Sadwrn yn ddi-feth âi i'r llyfrgell yng Nghaernarfon i weld a oedd yna unrhyw lyfr, ysgrif, neu feirniadaeth newydd wedi ymddangos ar y gwaith roedd o yn ymdrin ag o ar y pryd. Nid dyn ymffrostgar mohono, ond eto roedd yn ddigon hyderus i ddweud wrthym pan yn paratoi at yr *Higher:* 'Os nad rhyw sbrigyn ifanc, hunan-dybus, newydd raddio efo dosbarth cynta' o Rydychen neu Gaergrawnt sy'n gosod y cwestiynau eleni, dyma'r cwestiynau gwerth eu gosod ar *Twelfth Night, Julius Ceasar, Mayor of Casterbride*, a *Wuthering Heights'*. Gwn fod athrawon wedi camarwain disgyblion ar hyd y blynyddoedd drwy 'sbotio' cwestiynau — ond nid Mr Morris.

Wrth edrych yn ôl dros hanner canrif rwy'n cofio ag anghrediniaeth bron, y ddawn oedd ganddo i 'sbotio' testunau traethodau yn y papur iaith. Deuai i mewn i'r dosbarth rhyw bythefnos cyn yr arholiad, camu at y bwrdd du gan ddweud, 'Mae rhywbeth yn dweud wrtha i y bydd rhai o'r rhain ymysg testunau'r traethodau eleni.' Âi ymlaen i sgwennu rhyw bump, chwech testun ar y bwrdd du, ac yna awgrymu — Rhagymadrodd; Corff, paragraff, 1, 2, 3, 4; Diweddglo.

Coeliwch neu beidio, deuai amryw i fyny yn yr arholiad. Sut y gwyddai? Darllenai'n eang — papurau newydd, a chylchgronau. Gwrandawai ar y radio ac fe wyddai beth oedd pynciau diddorol a llosg y dydd. Os oedd digon o ddychymyg a hyder ynoch gallech anwybyddu ei awgrymiadau, ond i'r llai hyderus, roeddent fel 'manna o'r nefoedd'.

Oedd, mi roedd o yn athro gwych i'n helpu ni i fynd trwy ein arholiadau a dyna, mae'n debyg, oedd y prif ddisgwyliad oddi wrtho. Sut y gallai plant o'n cefndir ni lwyddo heb athro fel Mr Morris? Ond mae cwestiwn arall y dylid ei ofyn. A ddylai athro da greu o leiaf ddiddordeb, os nad cariad, at ei bwnc? 'Sgwn i faint o'm cyfoedion ddarllennodd un o gerddi Shelley, Keats, Byron neu Browning, ar ôl gadael yr ysgol, neu ddarllen nofel gan Thomas Hardy, neu fynd i weld un o ddramâu Shakespeare? Gwn y byddai ef yn gobeithio y byddai llawer ohonom yn gwneud hynny. Byddai mwy o obaith, efallai, pe byddai Mr Morris wedi gallu defnyddio peth cyfarpar cyfoes fel y teledu a'r fideos, i ni gael clywed Laurence Olivier, John Gielgud, Kenneth Branagh, Ian McKellen, Derek Jacobi, a myrdd o rai eraill, yn darllen Shakespeare fel y dylai gael ei ddarllen. Gwaetha'r modd ei fwrdro fyddem ni gan obeithio i'r nefoedd nad pwyntio atom ni fyddai Mr Morris wrth ddweud, *'You there at the back, start with Malvolio's speech'*!

Dwi'n falch mai Mr Morris oedd yr athro Saesneg ym Mrynrefail pan oeddwn i'n gwneud fy *Senior* a'r *Higher*. Digwydd bod yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Byddwn wrth fy modd cael cyfle i gael sgwrs ag o heddiw. Cyfle i ofyn sut y byddai'n teimlo ynghylch ailgydio mewn dysgu ei hoff bwnc. Rwy'n meddwl fy mod i'n gwybod sut yr atebai: 'Dim heddiw, Mair, allwn i byth â rhoi'i fyny â'r holl ymyrraeth — y llenwi ffurflenni, gwneud rhestrau, gosod ysgolion mewn tablau, ac ati. Roedd gwneud y *three weekly lists* yn anathema gen i. Gwastraff amser llwyr.'

'Sgwn i a ydyw yn troi'n ei fedd?

MAIR ROBERTS, Llanwnda

**CYFARFOD BLYNYDDOL YR ECO**

**NOS IAU, 20 MEHEFIN**
**YN YSGOL BRYNREFAIL**
**am 7.30 o'r gloch**
**Dowch yn llu i gefnogi**

# Yn ôl i'r Ardd
## gan Wraig Tŷ

Dyna hyfryd ydi cael un o ferched Bro'r *Eco* yn cyflwyno rhaglen arddio ar nos Wener ar S4C, a chael cip ar ei gardd ei hun yn Llanberis.

Mae arnaf ofn mai rhyw gip byr yr ydym yn ei gael ar y gerddi yn y rhaglen ac mae ambell un yn cwyno am hynny. Gobeithiaf y bydd y rhaglenni hyn yn symbyliad i fwy o ferched y fro fynd ati i wneud eu gerddi bach yn hardd. Deallaf i Mari ddweud fod yn well ganddi arddio nag actio. Felly y teimlaf innau hefyd — gwell garddio na glanhau'r tŷ. Byddai ffermmwyr yn dweud mai ail beth ydi tŷ, ond felly byddai hi minnau efo'r ardd.

Os nad oes gennych lawer o dir yna botiau blodau amdani. Yr adeg yma o'r flwyddyn planiwch y bidoglys (*lobelia*), y pansis, yr *allyssium* gwyn a'r myniawyd y bugail (*geranium*). Gellir tyfu *begonias* hefyd mewn potiau. Mae gardd ffrind i mi, yn bictiwr, â dwy neu dair o *clematis* yn y cefndir a blodau parhaol, fel cynfas weu hen ffasiwn a blodau glas *alysium*. Mae yno hefyd botiau sy'n lliwgar iawn drwy'r haf. Os na ellwch eu tyfu nhw o had eich hun, ewch am dro i Antur Waunfawr i brynu'r planhigion.

Beth amdani ferched bro *Eco'r Wyddfa*? Efallai cawn hanes eich gerddi bach o dro i dro? Daliwch i hofio neu, fel y dywedodd Crwys, fe fydd 'yr hen estron gwyllt o ddant y llew / â dirmyg lond ei wên / Sut gwyddai'r hen droseddwr hy' / fod mam yn mynd yn hen'.


Ffenestri
**CELTIC**
Windows
**2 TAN Y BRYN, BETHEL**
**BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL**
**FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS**
NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!
**Ffoniwch am amcanbris – rhad ac am ddim**
NHBC
**(01286) 671181**
**(0831) 326160**

FINE ART
TRADE GUILD
**ORIEL PLAS GWYN**
**Pontrug, Caernarfon**
Gwasanaeth Fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol
**Ar Ffordd A4086**
**Caernarfon — Llanberis**
**Ffôn/Ffacs: (01286) 672619**
**Richard S. Humphreys**

**Gwesty**
**Dolbadarn**
**LLANBERIS Ffôn: 870277**

**Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.**

Alwyn a Sarah Jones
**RACCA**
**PENISARWAUN**
★ Blodau ar gyfer pob achlysur
hefyd
★ **Dewis da o Lysiau Fferm**
★ **Wyau *Free Range***
Ar agor saith diwrnod

**870605**
**LLYSIAU AR GYFER PICLO**

# DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

**Enillwyr Clwb 100 Plaid Cymru am fis Mawrth** – £10: Timothy Jones, Beran; £5: Miss Margaret Williams, Ael y Bryn, Rhiwen. Mis Ebrill – £10: Mrs Iona Richards, 5 Tai Caradog; £5: Mr Ifan Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig. Mis Mai – £10: Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen; £5: Mr Gwyn Parri, Cynefin.

**Clwb Elidir:** Cyfarfu yr aelodau yn y Caban ddydd Mawrth, Ebrill 30, dan lywyddiaeth Mrs Jane Jones. Cafwyd gêm o Bingo yng ngofal Mrs Jennie Williams, a chafwyd pnawn reit ddifyr. Rhoddwyd y te gan Mrs Janet Bingham a Mrs Aileen May Jones ac enillwyd y raffl gan Mrs Jane Catherine Hughes. Diolchwyd i bawb gan y llywydd.

Ar Fai y 14eg bu cyfarfod arall yn y Caban gyda Mrs Jane Jones yn y gadair. Gwnaed trefniadau terfynol am ein trip blynyddol, pasiwyd i gael cinio yn y Split Willows, Llanfairfechan, ac yna mynd ymlaen i Landudno. Os oes yna rywun sydd heb fod yn aelodau o'r Clwb eisiau dod bydd croeso ichwi roi eich enwau i Mrs Jane Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, mor fuan a phosibl, os gwelwch yn dda. Diolch i Eirlys am ofalu am drefniadau'r trip.

Cydymdeimlwyd â Mrs Janet Bingham yn ei phrofedigaeth o golli brawd yng nghyfraith ym Mangor. Croesawyd Mrs Dolly Brown yn ôl ar ôl bod yn yr ysbyty. Y gwestwragedd oedd Mrs Megan P. Morris a Mrs Sally Lewis, ac enillydd y raffl oedd Mrs Annie M. Morris.

**Llwyddiant:** Llongyfarchidadau i Elfed Morris, Llechwedd, ar ei lwyddiant arholiad gradd 1 piano, gydag anrhydedd; ac hefyd am ennill y wobr gyntaf ar yr unawd o dan 15 oed yn Eisteddfod Clynnog Fawr yn ddiweddar.

**Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen:** Cyferfu'r Ymddiriedolwyr nos Lun, 13 Mai, pryd y dyfarnwyd rhoddion gwerth £1,500 mewn ymateb i'r pum cais am gymhorthdal a dderbyniwyd. Ers 1984 mae'r Gronfa wedi rhannu £8,180 mewn grantiau i fudiadau'r pentref.

**Merched y Wawr:** Ar Fai 11 aeth yr aelodau i Neuadd John Phillips, Bangor, i Ŵyl Gwanwyn Gwynedd. Cawsom ddiwrnod hyfryd yng nghwmni ein cydaelodau o ganghennau eraill. Rhoddodd y Parchg Harri Parri sgwrs ar 'Feddygon y Ddafad Wyllt'. Bu Mrs Sophie Pari-jones yn sôn am Ffigyrau Staffordshire, ac yn arddangos rhai ohonynt. Wedi cinio da cawsom arddangosfa o hen ddillad traddodiadol Cymreig gan Mrs Elen Roger Jones. Agoriad llygad oedd gweld y gwahanol fathau o siolau Cymreig, a braint oedd gwrando ar Mrs Jones yn traethu mor huawdl. Caed arddangosfa wedyn o ddillad gwanwyn o Siop Madam Wen. Yna bu Dawnswyr Môn yn ein diddanu â nifer o ddawnsiau gwerin Cymreig, cyn cloi'r diwrnod gyda dawns fodern gan ddisgyblion Ysgol Glanaethwy o dan ofal Cefin Roberts.

**Diolch:** Dymuna Gwen Griffith a'r teulu, 'Fron', ddiolch i berthnasau a ffrindiau am eu caredigrwydd pan fu farw ei brawd, Arthur, yn ddiweddar.



*Anfonwyd y llun hwn o blant Ysgol Gwaun Gynfi (Deiniolen Central School) y 30au gan Mr Cledwyn Parry, Gwyrfai Terrace. Miss Elinor Jones yw'r athrawes. Oes rhywun all enwi'r plant a'r flwyddyn?*

# NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor. Ffôn: (01286) 870440

**Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390**

**Diolch:** Dymuna Dafydd Emrys Griffith, 5 Bro Glyder, ac Eirian a'r teulu ddiolch i'w holl gymdogion a'u ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt o golli priod, mam, nain a hen nain yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad:** Cydymdeimlwn â Mrs Marie Baylis, Ty'n Llan, a'r teulu ar ôl iddi golli ei mham, sef Mrs Anne Watt o Sunderlan, Tyne and Wear, yn ddiweddar.

**Casgliad:** Casglwyd £33 yn y Nant yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol.

**Cadair:** Llongyfarchiadau i David John Pritchard, Llys Awel, ar ennill cadair unwaith eto yn ddiweddar; y tro hwn yn Eisteddfod y teulu James, Pantyfedwen, ym Mhontrhydfendigaid.

**Genedigaeth:** Llongyfarchiadau i Janice a Dei Tomos, Ty'n Twll, ar enedigaeth merch fach ar Fai 24, chwaer fach i Gwen. Llongyfarchiadau hefyd, wrth gwrs, i Mrs Myfanwy Thomas, Bron Wyddfa, ar ddod yn nain unwaith eto.

**Y Gymanfa:** Estynnwyd croeso i Gymanfa Presbyteriaid Dosbarth Padarn i gapel Rehoboth ddydd Sul, Mai 5. Llywyddwyd cyfarfod y pnawn gan Mrs Falmai Pritchard, Llanberis, a chyfarfod yr hwyr gan Mr Goronwy Jones, Bethel. Mrs Deilwen Hughes, Bethel, oedd yr arweinydd, a'r organydd oedd Mr Gareth Jones, Llanberis. Cafwyd eitemau gan barti Lleisiau Lliwedd yn ystod cyfarfod yr hwyr. Cyflwynwyd gwobrau i'r rhai a fu'n dysgu'r maes llafur, a da oedd gweld rhai o blant Rehoboth yn eu plith. Roedd te wedi ei baratoi yn y festri, a diolchir i bawb a fu'n brysur yn ei baratoi.

# CHWARAEON

## Clwb Karate Newydd yn Llanberis

Yn ystod y mis yma mae Cymdeithas Karate Zanshin yn agor clwb newydd yn ein hardal. Yr hyfforddwyr Yw Gareth Edwards a Meriel Wood o Gaernarfon.

Y karate y maent yn ei ddysgu yw Shukokai – y math mwyaf pwerus a chyflymaf yn y byd. Cewch ddysgu sut i'ch amddiffyn ei hun, cewch gystadlu a chadw'n heini, yn ogystal â meithrin hunan ddisgyblaeth a hunan hyder. Shukokai yw'r unig fath o karate sydd yn gwneud defnydd o 'impact pads' sydd yn gadael i'r disgybl weithio ar ei bŵer a'i dechneg ac yn profi fod y dechneg yn effeithiol.

Bydd y wers gyntaf nos Lun, 3 Mehefin, yn y Ganolfan Gymuned, Llanberis (6-7.30 p.m.).

Am fanylion pellach ffoniwch Meriel ar (01286) 676166. (Os ydych wedi gwneud Karate yn Llanberis o'r blaen, ffoniwch am fanylion arbennig.)

Bydd Clwb Karate arall yn dechrau yn yr ardal pan fyddant yn cyfarfod yn Ysgol Brynrefail gan gychwyn ar 4 Mehefin. Cynhelir y dosbarthiadau ar nos Fawrth, rhwng 6.30 ac 8.00

## Coch, du, coch, du. . .

Braf yw cael ymateb unrhyw dro, ac fe dderbyniais lythyr gan Gwynedd Owen o Barc Hendre, Caernarfon. Mae'n cyfeirio at gamp Aled Roberts ar y bwrdd snwcer. Gwn fod snwcer yn boblogaidd iawn yn yr ardal, ac fe fyddai'n braf cael clywed am fwy o gampweithiau y 'potiwrs'. Dyfynnaf o lythyr Gwynedd Owen:

*'Braint arbennig iawn oedd cael bod yn y Ganolfan Snwcer yn Llanberis, nos Sadwrn, Mai 18, pan wnaed rhediad o 114 gan Aled Roberts, mab Arwyn a Gwenda Roberts, Hafle, Llanrug. Hyd y gwn, dyma'r rhediad mwyaf a wnaed yn y pentref erioed. Mae Aled wedi gwneud rhediad o 127 yng nghlwb Llanrug hefyd.*

*'Mae Aled yn chwaraewr dawnus dros ben, ac yn cymryd rhan mewn cystadlaethau amatur ledled y gogledd.*

*'Unwaith eto, braint oedd gweld y rhediad. Trueni na fyddai mwy na phedwar ohonom yno'n gwylio.'*

Diolch Gwynedd. Braf fyddai gwybod beth yw rhediad uchaf pob clwb arall yn yr ardal. Gan bwy, a phryd? Pwy tybed sy'n dal y record ym mro'r Eco?

Fel Gwynedd, chwi glybiau snwcer, beth am ymateb?



I drin a thrwsio pob math o beriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr PORTHAETHWY
Ffôn: (01248) 714043 neu (01286) 674520
Edau, Nodwyddau ac ati mewn stoc

ALOE VERA
Am well iechyd yn naturiol, profiwch nerth ALOE VERA. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin
fel:- Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth, I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egni Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b.
am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746

★ Tacsi
★ Maes Awyr
CABS ERYRI
Yfwch chi Gyrrwn ni!
Ffôn: 871049/symudol 0831 429970
neu ffoniwch ni am ddim ar
National Cabline — Freephone 0800-123-444

W.J. GRIFFITH
PLYMAR A GOSODWR GWRES CANALOG
Pant Tirion, Llanrug
Ffôn: (01286) 673248
Gosodwr Nwy Cofrestredig Corgi
CORGI GAS IN SAFE HANDS
Aelod o'r Association of Mechanical Services Contractors
Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

# CROESAIR MEHEFIN



**Mae 1 ar draws; 4 ar draws; 14 i lawr; a 25 i lawr, i gyd â chysylltiad â bro'r Eco.**

**AR DRAWS**

9. Y mannau hynny yn yr ardd y gellir cysgu ynddynt (7)
10. Nid yr hynnaf (7)
11. Yr hyn a gymerir yn ganiataol (8)
13. Gŵr cwerylgar (6)
15. Bardd (6)
16. Y byraf ar bob llaw (4)
19. Adar y llwyni eirin (9)
20. Cadw o fewn terfynau (6)
23. Taeog (6)
24. Cwpwrdd y ceidw'r Sais esgyrn sychion ei deulu ynddo (8)
27. Rhedwyr araf! (7)
28. Meirioli (7)
29. Rhai sy'n gwrthod rhoi (8)
30. Perthnasol i ddŵr (6)

**I LAWR**

1. Dilynwyr y pibydd yn ei fantell fraith (5)
2. Yr un â'r lleiaf amdano . . . (6)
3. ......dgwgyd law yn ddirmygus (8)
5. Gwisg y mynach (4)
6. Yr haid sy'n ofni'r bwgan (6)
7. Y perfformiadau gorau erioed (8)
8. Efans diog, ond eto mae wedi pasio'r meini prawf (9)
12. Disgrifiadol o'r adeilad y tyfir tomatos ynddo yng Nghymru (7)
14. Sant cyn dechrau'r enwadau yn yr ardal (9)
17. Cas ac ysgeler (8)
18. Cytundeb trwy oddefiad (8)
21. Coed tal, bron iawn yn boblogaidd efo'r Sais (6)
22. Peiriant sy'n gwylio'r amser i'r un Sais (6)
25. Capel ein ardal ni (5)
26. Troi troi i geisio chwarter dwsin (4)

## ATEBION CROESAIR MAI

Derbyniwyd un ar ddeg o atebion cywir i groesair mis Mai. Llongyfarchiadau i Elfed Evans, Llanllechid; Rhiannon Pritchard-Jones, Pontllyfni; E. W. Pritchard, Garn; E. E. Jones, Rhoshirwaun; G. Gill, Bangor; Ceridwen Williams, Llanrug; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Catherine A. Jones, Rhiw; Mary Davies, Waunfawr; Jean Hughes-Jones, Rhiw; a chroeso'n ôl i'r gorlan i Iorwerth a Jean Williams, Caernarfon.

Fe gofiwch mai creu cliw cryptig i'r gair DISG yn 8 i lawr a osodwyd fel tasg ychwanegol, ac anagram, sef SGID oedd cynnig Iorwerth a Jean.

Aeth un i ddisgrifio'r gwrthrych: **Cewch wrando neu fwyta ar hon** (E.E. Jones); a chafwyd diffiniadau anuniongyrchol gan eraill: **Mae angen dawn arbennig i dderbyn un aur (C.W.); Y cylch di-sgwâr yn canu'n gryno (E.W.P.); Troir y cylch o gylch yma mewn cylch a dim arni (D.A.P-J).**

Tri cliw mewn barddoniaeth gan Mary Davies:

**Yn llac mae'n boenus,**
**Yn galed neu'n llipa'n gyfleus**
**Ond dan law'r joci mae'n ddiddanus**

Chwarae efo geiriau wna'r gweddill:

**Dechrau gwegian o dan bum cant (G.G.) (G, o dan = IS, pum cant = D). Brenin Annwn ynb mynnu pen y gyrrwr (E.E.) (DIS, a Pen y gyrrwr = G). Noethni; bwyta'r Polo Mind a'i chwarae (C.A.J. (Noethni = diosg — heb yr 'o'). Rhoddi Princess Di ar blât a dechrau sgorio (J.H.—J) (DI-SG). Da iawn y sŵn a grea (R.P.—J) (Llythrennau cyntaf Da, iawn, sŵn, grea).**

Â minnau'n gwegian dan y straen o geisio cloriannu'r ceisiadau, cynnig Mrs G. Gill, Henllys, Ffordd Deiniol, Bangor, sy'n mynd â hi y mis yma: **Dechrau gwegian o dan bum cant.**

Nid camgymeriad ydi'r ffaith nad oes cliwiau i 1 a 4 ar draws yn y croesair uchod, ond fe ddylai'r atebion fod yn weddol hawdd ar ôl cwblhau'r gweddill. Wnewch chi felly lunio cliw i 4 ar draws, a'i yrru efo'r croesair gorffenedig i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn **20 Mehefin**, os gwelwch yn dda.



# Dyddiadur y Mis

## MEHEFIN

**5. Mercher** **BETHEL:** Cyfarfod Cyffredinol yr Ysgol Feithrin am 8 o'r gloch.
**LLANRUG:** Plaid Cymru — Cyfarfod Blynyddol yn y Sefydliad Coffa.

**6. Iau** **BRYNREFAIL:** Sefydliad y Merched yn croesawu aelodau cangen Y Felinheli.

**11. Mawrth** **LLANBERIS:** Undeb y Mamau — trip i Benbedw.
**LLANRUG:** Merched y Wawr — gwibdaith flynyddol.

**12. Mercher** **BETHEL:** Merched y Wawr — taith ddirgel.

**13. Iau** **BRYNREFAIL:** Cymdeithas y Chwiorydd, yng nghwmni Mr Meirion Hughes, Caernarfon.

**15. Sadwrn** **WAUNFAWR:** Plaid Cymru — Helfa Drysor o gwmpas llwybrau'r pentref.
**BETHEL:** Côr yr Ysgol Gynradd a Chantorion Elidir mewn cyngerdd ym Mangor.

**19. Mercher** **CAEATHRO:** Pwyllgor y Cae Chwarae am 7.30 o'r gloch.

**21. Gwener** **BETHEL:** Yr Ysgol Gynradd — Barbeciw am 6.30 p.m.

**25. Mawrth** **CWM-Y-GLO:** Pwyllgor Apêl Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon yn cynnal Tombola yn yr Ysgol am 7 p.m.

**27. Iau** **WAUNFAWR:** Merched y Wawr — gwibdaith ddirgel.

**30. Sul** **PENISARWAUN A'R CYLCH:** Cyfarfodydd Cymdeithas y Beibl cylch Deiniolen, Dinorwig a Brynrefail, yn Eglwys Santes Helen, am 2 a 6 o'r gloch.

**RHAGHYSBYSIAD:**

**GORFFENNAF**

**12. Gwener** **AGORIAD SWYDDOGOL Parc Natur Antur Waunfawr yng nghwmni Dei Tomos.**

## RHODDION

£10: Er cof am Mrs Eirlys Jones, Llecyn Clyd, 3 Blaen y Ddôl, Llanberis; Teulu'r ddiweddar Mrs Katie Griffith, 20 Hafan Elan, Llanrug.
£8: Mr P. W. Williams, Corby.
£7: Di-enw.
£5: Mrs Betty Griffith, Gorffwysfa, Waunfawr; Teulu y ddiweddar Mrs L. Evans, Tegfan, Waunfawr; Mrs Eileen Thomas, Bron y Gaer, Penisarwaun; Mr a Mrs Ted Morris, 16 Maes Padarn, Llanberis; Teulu y ddiweddar Mrs Mary Thomas, gynt o 14 Pant Du, Llanberis; Mrs Myfi Roberts, 2 Plas Tirion Terrace, Llanrug; Mrs J. E. Jones, 15 Hafan Elan, Llanrug; M. Parry, Tyddyn To, Porthaethwy; Betty Peris Jones, 15 Hafan Elan, Llanrug; Mrs G. McCarthy, Lerpwl; Mrs J. Williams, Morfa Bychan; Mr J. Evans Hughes, Leicester; Di-enw.
£3: Parchg John Glyn a Mrs Sioned Glyn, Garmon, Waunfawr; Mrs L. Owen, 4 Cefn Elan, Llanrug; Mr R. W. Roberts, Blaenau Ffestiniog; Mr Meurig Owen, Lewisham; Mr Alun Williams, Waunfawr; Mr a Mrs O. Jones, Llangefni; Mrs Mair Parry, Llanllyfni; Mrs A. Wilson Evans, Blaenau Ffestiniog; Mrs Jenny Davies, Llangeitho; Mrs H. Tilda Owen, Caerdydd; Mrs L. P. Lee, Morfa Bychan; Mr E. Rowlands, Wirral; Mrs Alvona Jones, Prestatyn; Miss H. Evans Munro, Corby; Mr J. E. Williams, Bishop Auckland; Mrs A. Sidebotham, Whalley Bridge; Mrs Beryl Dawes, Plymouth.
£2: Mrs Gwen Griffith, Fron, Deiniolen; Kevin a Wendy Williams, 1 Dôl Elidir, Llanberis; Mrs J. Roberts, Pen-llyn Farm, Brynrefail; Di-enw.

### HYWEL

**(Er cof am Hywel Owen, Bethel. Saer maen, chwaraewr snwcer, dyn da)**

Cyrraedd y nôd â'r cerrig — ei safon
Yn sefyll, dyheuig,
Yna, a'r gadair unig
I'w atal, ni bu dal dig.

R.Ll.J.

# CRONFA GOFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau a benchyciadau o'r Gronfa uchod. Ceir manylion a'r amodau drwy anfon amlen, gyda stamp a chyfeiriad arno, i'r Ysgrifennydd:

**John H. Hughes,**
**Tan y Clogwyn, Llanberis**
**Gwynedd LL55 4LF**
**Ffôn: (01286) 871562**

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn
**Awst 31ain 1996**

**NI YSTYRIR UNRHYW GAIS A DDAW I LAW AR ÔL Y DYDDIAD CAU PENODEDIG**

# CHWARAEON

## Tlws yr Eco




*Tîm buddugol Llanrug 'A' yn y gystadleuaeth dan 9 oed gyda'r rhedwr David Phillips.*

Ar noson wlyb a gwyntog cafwyd cystadleuaeth benigamp unwaith eto eleni. Rhwng 5.45 a 9.30 o'r gloch chwaraewyd 30 o gêmau, a phob un yn llawn ymdrech a brwdfrydedd. Yn sicr, mae'r noson hon yn un o uchafbwyntiau pêl-droed cynradd y cylch. Hoffwn ddiolch i brifathro Ysgol Llanrug am y ddarpariaeth barod, ac i'r llu rheolwyr a rhieni am eu cymorth parod yn ystod y noson. Mae'n dweud llawer am frwdfrydedd y plant, eu bod wedi dyfalbarhau yn y fath dywydd! Cafwyd ambeel berfformiad clodwiw. Rhaid sôn am Josh o Gwm-y-glo. Oherwydd maint yr ysgol roedd rhai o'r disgyblion yn gorfod chwarae yn y ddau oedran. Rhedodd Josh yn ddiflino drwy gydol y noson gan ddal i wenu. Roeddwn i'n clywed fod sgowtiaid rhai o dimau 'mawr' yr ardal wedi ei nodi. Ac yna, Elsa, y gôlgeidwad o Lanberis yn cuddio tu ôl i'r cap pêl-fâs. Cymêr go iawn. Yn wir, mae safon y golgeidwaid pob blwyddyn yn uchel iawn. Mae 'na un go lew yn Neiniolen hefyd.

Gyda'r timau wedi eu trefnu yng gynghreiriau, y prif dimau oedd yn cystadlu yn y rownd derfynol. Llanrug oedd yn wynebu Bethel yn oedran dan 9, a chafwyd cystadleuaeth agos ac wedi pum munud o chwarae amser ychwanegol, Llanrug gipiodd y gôl dyngedfenol — a sgoriwr o'r enw Philips yn plesio y rheolwr, ac ewythr arbennig yn Wrecsam.

Cafwyd gêm dda hefyd yn yr oedran dan 11. Llanberis a Bethel oedd yn ymgiprys, ac eto rhaid oedd cael amser ychwanegol. Y Darans a lwyddodd, a braf oedd gweld hen grysau du a melyn Llanberis ar y maes eto — hynny ydi, y lliwiau a'r patrymau!

Yn ffodus, neu'n anffodus, mae'r gystadleuaeth yn mynd o nerth i nerth. Y flwyddyn nesaf felly bydd rhaid trefnu man ble gellir chwarae mwy nag un gêm ar unwaith er arbed amser — cae-pob-tywydd Llanrug efallai? Hefyd, oherwydd y trefniadau a wneir ymlaen llaw ni dderbynir unrhyw dîm os na fydd wedi gwneud cais erbyn y dyddiad penodedig.

Llawer o ddiolch i bawb am noson hwyliog a llwyddiannus. . . . Dwi'n mynd yn ôl i'r bàth rŵan . . .!

**Y TABLAU**

**Dan 9 oed:**

| | | |
|---|---|---|
| **Grŵp A** | Llanrug A | 6 |
| | Llanberis A | 3 |
| | Cwm-y-glo | 3 |
| | Bethel B | 0 |
| **Grŵp B** | Bethel A | 6 |
| | Llanberis B | 3 |
| | Llanrug B | 2 |
| | Llanrug C | 1 |

**Dan 11 oed:**

| | | |
|---|---|---|
| **Grŵp A** | Bethel | 5 |
| | Llanrug A | 4 |
| | Llanrug C | 2 |
| | Llanberis B | 1 |
| **Grŵp B** | Llanberis A | 4 |
| | Deiniolen | 3 |
| | Llanrug B | 3 |
| | Cwm-y-glo | 2 |

## Llwyddiant o'r diwedd



Wedi blynyddoedd o ymdrechu heb lwyddiant sicrhaodd bechgyn o dan bymtheg oed Llanrug y 'Junior Cup' ar yr Oval, ar y deunawfed o Fai.

Gyda Mountain Rangers — y ffefrynnau — yn wrthwynebwyr a hwythau eisoes wedi curo Llanrug ddwywaith yn ystod y tymor, fe ddaliodd yr hogia eu perfformiad gorau tan y gêm bwysicaf un. Dangosodd Andrew Williams o Fethel, un o chwaraewyr mwyaf dawnus y gynghrair, ei werth gyda dwy gôl ardderchog. A dyna oedd y sgôr derfynol — 2-0

O dan reolaeth Mr Howyn Jones, wedi bod yn canolbwyntio ar y gêm ers dyddiau, a chapteiniaid Owain lloyd y golgeidwad cafwyd y 'commitment' oedd ei angen.

Gyda llawer o'r chwaraewyr yn chwarae eu gêm olaf dros y Clwb, gan gynnwys Eifion Jones sydd ar ei ffordd i Anfield. Fel arfer chwaraeodd yn dda ac edrychodd ben ac ysgwydd yn uwch na'r chwaraewyr eraill, ond yn anffodus fe gafodd gerdyn melyn — y cyntaf o amryw dwi'n siŵr! Ei bartneriaid amddiffynnol oedd Wayne a Steven Jones ac Irfon yn ardderchog fel arfer.

Yng nghanol y cae roedd Dyfan yn gwneud ei orau i blesio'r cefnogwyr — yn enwedig y genethod! Ar yr asgell chwith roedd Aled, a weithiodd yn galed ac roedd Meilir yr ochr arall yn ceisio ei orau gan obeithio plesio!

Siôn Stokes oedd y pedwerydd aelod yn y canol. Chwaraeai 'calon y tîm' mor gyson ag erioed ac ef oedd fy 'Man of the Match'.

I fyny'r cae gwelwyd Gerallt Hughes yn defnyddio ei bresenoldeb corfforol yn ogystal â rhedeg yn ddeallus. Gyda goliau gwych a sgiliau Andrew, yn ogystal ag arbediadau pwysig Machno, ni ellir gweld bai ar unrhyw berfformiad.

I gadw'r pwysau ar y tîm a ddechreuodd, roedd nifer o eilyddion. Ni ellir anghofio rhan Gethin Williams, Geraint Cook, Martin (a ddaeth ymlaen), Gwion Iwan a Siôn Jones, i'r llwyddiant, er fod 'Perthi' ar ei gefn yn yr haul yn Fuerte Ventura!

Yn dilyn y dathlu daeth y seremoni cyflwyno'r medalau. Cafodd pob aelod o'r tîm afael yn y cwpan, cyn ac ar ôl y bwffe! Paciodd Owain y cwpan yn ei fag a mynd â hi i Fryn Moelyn!

Nid oedd neb yn haeddu'r clod a'r llwyddiant yn fwy na'r rheolwr, sydd wedi ymddeol ar ôl y gêm hon, ar ôl blynyddoedd o waith gwerthfawr i'r Clwb.

MEILIR JONES (Un o'r Hogia!)

## Pigion wrth Basio . . .

Efallai i chwi feddwl fod Alun Vaughan wedi bod yn ddistaw yn ddiweddar. Erbyn hyn mae'r myfyriwr yn rhedeg yn yr adran a elwir 'Junior Men'. Rhoddodd berfformiad clodwiw yn cynrychioli Cymru mewn ras mynydd ryngwladol yn Iwerddon yn ddiweddar. Er ei fod dan 20 oed, ac yn rhedeg yn erbyn dynion hŷn, trwy orffen yn ddegfed ef oedd y Cymro cyntaf i gyrraedd y diwedd.

* * * *

Daeth llwyddiant i nifer o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yng nghyfarfod Athletau'r Ardan (neu Arfon) yn ddiweddar. Daeth nifer o'r disgyblion yn gyntaf ar y diwrnod, a llwyddodd nifer i roddi perfformiadau personol gorau. Bydd y canlynol yn cynrychioli eu hardal ym Mabolgampau Eryri (yr hen Wynedd) ar 15 Mehefin: Nicola Jones, Elin Harding, Rachel Jones, Caudette Fleming, Llinos Roberts, Martin Willis, Iona Williams, Andrew Williams, ac Eifion Jones.

* * * *

Siomedig iawn fu perfformiadau timau hŷn Llanrug y tymor diwethaf yma, ond mae golau ar y gorwel gyda pherfformiadau y timau ieuenctid. Gyda un gêm yn weddill mae'r garfan – 13 yn gydradd gyntaf ar frig Cynghrair Gwyrfai. Cipiodd y garfan – 15 y cwpan trwy guro Mountain Rangers ar yr Oval (Gweler adroddiad Meilir Jones.)

Gyda llaw, llongyfarchion i Dafydd Arfon ar gipio y wobr y 'Fantasy League' yn y *Daily Post* am yr eilwaith. Y 'Ferguson' lleol, yn ddiamheuol!

* * * *

Cafwyd ymateb da unwaith eto i'r cynllun Kwik Cricket yn Ysgol Brynrefail, gyda 18 yn mynychu y cwrs wyth wythnos. Mae rhai chwaraewyr addawol iawn ymysg y rhai 8/9 oed, ac rwy'n siŵr y bydd chwaraewyr da yn datblygu ymhen dwy neu dair blynedd.



*Criw'r Kwik Cricket.*